


Gwerthusiad Interim y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Newydd i Gymru





Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

Helen Wyatt
Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: (02920) 821718
E-bost: helen.wyatt@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: <http://www.tai.cymru.gov.uk/>

Cynlluniwyd gan Cartograffeg

© Hawlfraint y Goron 2005
Cysodi gan Gwasanaethau Prosesi Testun

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	1
1.1 Cefndir	1
1.2 Nodau ac Amcanion	2
2. Methodoleg	3
2.1 Diffiniad o dlodi tanwydd	3
2.2 Diffinio Incwm	3
2.3 Cyfrifo tlodi tanwydd	4
2.4 Cyfrifo costau rhedeg	4
2.5 Patrymau gwresogi	4
2.6 Costau tanwydd	5
2.7 Amrywiadau mewn prisiau tanwydd	6
2.8 Targeddu lefelau SAP	6
2.9 Yr holiadur	7
3. Sampl HEES	9
3.1 Data gan EAGA	9
3.2 Ymatebion i'r arolwg	10
3.3 Mesur incwm o'r arolygon a ddychwelwyd	12
3.4 Pwysoli ymatebion yr arolwg	14
4. Canlyniadau	16
4.1 Cyffredinol	16
4.2 Prif ddadansoddiad – niferoedd a nodweddion	17
4.3 Nodweddion a safbwyntiau y sawl ymatebodd i'r arolwg	29
4.4 Data arall a gasglwyd o'r holiadur	30
5. Dyfodol HEES	38
5.1 Cyflwyniad	38
5.2 Sut y gall HEES gyrraedd mwy o bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd?	39
5.3 Sut y gallai'r broses asesu weithio'n ymarferol mewn cynllun HEES a ddiwygiwyd?	46
5.4 Casgliadau	47
5.5 Argymhellion	49
6. Cyfeirnodau	50
Atodiad 1 – Materion yn ymwneud â thlodi tanwydd ac incwm	
Atodiad 2 – Yr holiadur	
Atodiad 3 – Y llythyr eglurhaol	
Atodiad 4 – Yr hysbysiad prosesu teg	
Atodiad 5 – Dilysu mesur incwm yn arolwg HEES	
Atodiad 6 – Tablau yn dangos amcangyfrifon HEES yn ôl pwysiad y math o gartref	
Atodiad 7 – Tablau yn dangos canlyniadau ymatebion i'r arolwg	

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Dechreuodd yr Home Energy Efficiency Scheme (HEES) Newydd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2000 ac mae'n darparu pecyn mwy cynhwysfawr o fesurau arbed ynni ym mhob eiddo na'r hyn oedd ar gael yn flaenorol o dan y cynllun HEES gwreiddiol. Bellach mae HEES yn cynnig pecyn sy'n cynnwys gwelliannau gwresogi yn ogystal â mesurau inswleiddio i gartrefi sy'n derbyn rhai budd-daliadau penodol. Yn gryno, mae HEES Newydd wedi ei anelu at gartrefi preifat a chyhoeddus, ac mae'n cynnig:

- Grantiau hyd at £1,500 ar gyfer mesurau inswleiddio a gwresogyddion ystafell i gartrefi incwm isel.
- Grantiau hyd at £2,700 ar gyfer pecyn estynedig o fesurau a elwir yn HEES Plws (lle y darperir gwres canolog) i gartrefi pensiynwyr, rhieni sengl ac i rai sy'n sâl neu'n anabl.

Mae'r cynllun yn weddol debyg i'r cynllun Warm Front yn Lloegr, er bo swm y grantiau sydd ar gael yn wahanol gan fo HEES Plws yn cynnig £200 ychwanegol i Warm Front Plus, gan adlewyrchu costau uwch systemau gwresogi yng Nghymru (DEFRA & DTI, 2001).

Amcangyfrifodd Arolwg Cyflwr Cartrefi Cymru (WHCS) 1997/1998 fod 222,000 o gartrefi yn gymwys i dderbyn cymorth o dan HEES ac yn brin o o leiaf un o'r mesurau a oedd ar gael trwy'r cynllun. Roedd tua hanner o'r cartrefi hyn (117,000) yn cynnwys o leiaf un person dros 60. Roedd tua 18% (40,000) yn gartrefi i rieni sengl ac 14% (32,000) arall yn gymwys gan eu bod yn derbyn budd-daliadau a oedd yn ymwneud â salwch hirdymor neu anabledd. Roedd y gweddill (33,000) yn gartrefi 'tlawd' gyda phlant (DEFRA & DTI, 2001).

Mae'r Cynulliad wedi gwneud tri addewid mewn perthynas â thlodi tanwydd:

- Cael gwared o dlodi tanwydd o gartrefi incwm isel, bregus erbyn 2010, hyd y bo'n ymarferol bosibl
- Cael gwared o dlodi tanwydd o gartrefi bregus mewn cartrefi'n eiddo i'r cyngor erbyn 2012
- Cael gwared o dlodi tanwydd o bob cartref erbyn 2018, hyd y bo'n ymarferol bosibl

Gan mai HEES yw prif gynllun y Cynulliad i ateb ei ofynion o ran ei Strategaeth Tlodi Tanwydd, comisiynwyd yr astudiaeth hon i roi cyngor ar:

- Priodolrwydd seilio meini prawf cymhwyster HEES ar dderbyn cyfres benodedig o fudd-daliadau.
- Effeithiolrwydd HEES i waredu derbynwyr o dlodi tanwydd.
- Y ffaith fod y sawl a dynnwyd allan o dlodi tanwydd yn agored i gynnydd mewn pris tanwydd.
- Effaith cyflwyno cymorth ychwanegol o ran cynnydd mewn SAP.

1.2 Nodau ac Amcanion

Bwriad yr astudiaeth hon yw asesu:

Priodolrwydd y meini prawf cymhwyster.

Cyfrifo nifer a nodweddion y derbynwyr hyd yma, a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd pan yn derbyn cymorth, a nifer a nodweddion y derbynwyr, hyd yma, nad oedd yn dioddef o dlodi tanwydd.

- Digonolrwydd y cymorth a roddir i rai sy'n dioddef o dlodi tanwydd.
 - Cyfrifo nifer a nodweddion cartrefi a symudwyd allan o dlodi tanwydd o ganlyniad i fesurau derbyn grant gan HEES.
 - Cyfrifo nifer a nodweddion cartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth ond a oedd yn dal i ddioddef o dlodi tanwydd ar ôl ymyrraeth.
 - Cyfrifo sefyllfa cartrefi a dynnwyd o dlodi tanwydd, a fyddai'n dychwelyd i dlodi tanwydd pe byddai prisiau'n codi i lefelau penodol.
 - Cyfrifo effaith cyflwyno cymorth pellach i lefelau penodol (yn nhermau gwelliannau SAP i'r eiddo).

2. Methodoleg

2.1 Diffiniad o Dlodi Tanwydd

Cartref sy'n dioddef o dlodi tanwydd yw un na all fforddio cadw'n gynnes ar gost resymol. Ar gyfer *Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU*, a lansiwyd gan Llywodraeth yn Nhachwedd 2001, mae'r diffiniad o gartref sy'n dioddef o dlodi tanwydd wedi cael ei ddiffinio fel un sydd ag arno angen gwario mwy na 10% o'i incwm ar danwydd, i gynhesu'r cartref yn ddigonol ac i'w oleuo, i goginio ac i redeg offer domestig y cartref (DEFRA & DTI, 2001). Mae'r Cynulliad wedi derbyn y diffiniad hwn fel modd o fonitro newidiadau yn y nifer o bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd (CCC, 2003).

2.2 Diffinio Incwm

Defnyddir dau ddiffiniad o "incwm" yn *Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU*, fel a ganlyn:

- Ar gyfer Gosod Targedau – incwm sy'n **cynnwys** Budd-dâl Tai neu Gymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais (ISMI)
- Diffiniad Ychwanegol – incwm sy'n **eithrio** Budd-dâl Tai neu Gymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais (ISMI)

Fodd bynnag, nid yw'r term "incwm" yn cael ei ddiffinio'n dda, felly roedd yn rhaid mabwysiadu diffiniad clir er mwyn i'r astudiaeth fynd yn ei blaen. Penderfynwyd mabwysiadu'r dull safonol o amcangyfrif incwm, a ddefnyddir gan y llywodraeth ar gyfer amcangyfrif tlodi (yn wahanol i amcangyfrif tlodi tanwydd yn Lloegr) ac ar gyfer ystadegau HBAI (Cartrefi o dan Incwm Cyfartalog). Mae cysyniad yr HBAI o incwm yn cael ei ddefnyddio i fesur tlodi tanwydd yn yr Alban. Mantais hyn yw bod methodoleg a safonau yn bodoli i gasglu data ar incwm (gweler atodiad 1 am ragor o wybodaeth).

Yn niffiniad yr HBAI o incwm, mae'r ffactorau canlynol yn cael eu didynnu o amcangyfrif incwm cartref:

- treth y cyngor
- cyfraniadau pensiwn
- taliadau cynhaliaeth

cyfraniadau rhieni i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref

Mae'r dull a fabwysiadir gan yr astudiaeth hon yn gwyro oddi wrth ddull yr HBAI trwy BEIDIO â thynnu tri o'r eitemau hyn oddi wrth incwm cartref, er mwyn bod yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd yn *Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU* a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Defnyddiwyd dau ddiffiniad o incwm o fewn yr adroddiad hwn i amcangyfrif maint tlodi tanwydd, fel a ganlyn:

- Cyfanswm incwm wythnosol net y cartref o bob ffynhonnell ar ôl tynnu treth incwm, yswiriant gwladol ac unrhyw gyfraniad tuag at bensiwn (diffinnir fel Incwm Llawn)

- Cyfanswm incwm wythnosol net y cartref o bob ffynhonnell ar ôl tynnu treth incwm, yswiriant gwladol ac unrhyw gyfraniad tuag at bensiwn a budd-dâl tai (diffinnir fel Incwm Sylfaenol)

Oni nodir yn wahanol, y diffiniad o incwm llawn a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiadau'r astudiaeth hon.

2.3 Cyfrifo Tlodi Tanwydd

I benderfynu a yw cartref yn dioddef o dlodi tanwydd ai peidio ac i asesu graddau'r tloidi tanwydd, rhaid amcangyfrif incwm cartref a chyfanswm y gost o ddefnyddio tanwydd. Os yw costau tanwydd yn cynrychioli mwy na 10% o incwm, yna mae'r cartref yn dioddef o dlodi tanwydd. Gellir rhannu tloidi tanwydd ymhellach yn ôl lefelau o ddifrifoldeb:

% o'r incwm a warir ar danwydd	lefel tloidi tanwydd
Llai na 10%	Ddim yn dioddef o dlodi tanwydd
10 – 20%	Tlodi tanwydd cymedrol
20 – 30%	Tlodi tanwydd enbyd
Mwy na 30%	Tlodi tanwydd eithafol

Mae tloidi tanwydd wedi ei gyfrifo trwy ddulliau gwahanol yn yr astudiaeth hon, i benderfynu effaith y diffiniadau hyn ar y niferoedd mewn tloidi tanwydd:

- Defnyddio Incwm Llawn a Sylfaenol, h.y. incwm yn cynnwys ac yn eithrio Budd-dâl Tai.
- Defnyddio tri phatrwm gwresogi gwahanol (gweler adran 2.5 isod).

2.4 Cyfrifo costau rhedeg

Cyfrifwyd y costau rhedeg trwy ddefnyddio'r data a gafwyd gan EAGA, rheolwyr cynllun HEES, a arolygodd pob eiddo cyn cyflwyno'r mesurau. Defnyddiwyd nifer gwirioneddol y deiliaid o'r holiaduron (gweler adran 2.10), yn hytrach na'r math o gartref, a gasglwyd gan arolygwr HEES. Proseswyd data trwy raglen gyfrifiadurol Auto Evaluator yr NHER, sy'n seiliedig ar SAP 2001 a BREDEM12 (Anderson et al, 1996). Cafwyd yr holl gostau rhedeg trwy ddefnyddio BREDEM 12, y dull a ffafir gan BRE i ddadansoddi costau rhedeg. Y ffactorau allweddol sy'n cael effaith ar gostau rhedeg yw:

- y patrwm gwresogi a dybir
- pris uned o danwydd a dybir

2.5 Patrymau gwresogi

I asesu sut y mae patrwm gwresogi yn cael effaith ar dlodi tanwydd, cyfrifwyd y niferoedd a oedd mewn tloidi tanwydd ar gyfer tri phatrwm gwresogi gwahanol – Estynedig, Safonol a Chymysg. Ym mhob achos ystyriwyd tymheredd o 21°C yn yr ystafell fyw ac 18°C yn yr ystafelloedd eraill a ddefnyddiwyd. Y tri opsiwn a ystyriwyd wrth asesu lefel tloidi tanwydd oedd:

- Patrwm Gwresogi Estynedig: ystyriwyd fod ar bob un a oedd yn byw yn yr eiddo angen 16 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.
- Patrwm Gwresogi Safonol: Ystyriwyd fod ar bob un a oedd yn byw yn yr eiddo angen gwres am 9 awr y dydd yn ystod yr wythnos (bore a nos) ac 16 awr y dydd ar y penwythnos.
- Patrwm Gwresogi Cymysg: Roedd y patrwm gwresogi yn amrywio gan ddibynnu ar gategori'r sawl a oedd yn byw yn yr eiddo. Tybiwyd bod cartrefi gyda rhywun adref trwy'r dydd yn defnyddio'r Patrwm Gwresogi Estynedig; tybiwyd bod y rhai a oedd yn gweithio yn defnyddio'r patrwm Gwresogi Safonol; roedd y rhai a ddothwyd fel "tan-feddiant" â Phatrwm Gwresogi Rhannol.

Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion.

Canlyniadau sy'n seiliedig ar batrymau gwresogi cymysg sy'n cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn, oni nodir yn wahanol. Mae hyn oherwydd, yn gyntaf, fod y patrwm gwresogi hwn yn ystyried categorïau gwahanol y deiliaid, ac yn ail, mae'n gyson â'r dull a ddefnyddir yn Lloegr.

2.6 Costau tanwydd

Gwnaethpwyd ymchwil i gostau tanwydd trwy ddefnyddio gwefan Energywatch gan ddefnyddio codau post a phrisiau gwahanol, y Sutherland Comparative Domestic Heating Costs (ar gael ar www.salkent.co.uk) a gwefannau'r cyflenwyr. Mae Tabl 2.1 yn dangos cyfartaledd costau tanwydd ar gyfer de orllewin Lloegr a Chymru am y tair mlynedd gyflawn y mae HEES wedi bod yn gweithredu.

Tabl 2.1 Costau tanwydd yn Ne Orllewin Lloegr a Chymru

	2001	2002	2003
Nwy/KWh	1.48	1.52	1.57
LPG Swmp/Litr	25.7	23.4	25.6
Olew 28 sec/Litr	20.5	19.4	17.5
Glo/Kg	13.6	13.9	13.9
Trydan brig /KWh	6.6	6.8	8.5
Economi 7 (allfrig)/KWh	2.6	2.7	2.9
Economi 7 (brig)/KWh	7.7	7.5	8.6

Yn ogystal, roedd costau tanwydd yn amrywio'n fawr rhwng darparwyr; er enghraifft, roedd y gwahaniaeth rhwng pris nwy gan SWALEC a Nwy Prydain dros 10% i eiddo yn Ne Cymru a oedd yn defnyddio oddeutu 140GJ/blwyddyn. Roedd y cymhlethdod ychwanegol o brisiau gwahanol yn ei gwneud yn anodd diffinio cynllun prisio ar gyfer cartrefi Cymru.

Gyda'r wybodaeth bod oddeutu 50% o grantiau HEES wedi eu rhoi yn 2001 a 2002, a 50% yn 2003, defnyddiwyd y costau tanwydd a ddangosir yn Nhabl 2.2 gan feddalwedd NHER i gyfrifo cyfanswm y costau rhedeg.

Tabl 2.2 Costau tanwydd a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad (mae'r holl brisiau yn cynnwys TAW o 5%).

Tanwydd	Tâl Sefydlog (£)	Cost (£/GI)	Cost (ceiniog/uned)	Uned a ddefnyddiwyd
Nwy prif gyflenwad	37.26	4.22	1.52	KWh
Swmp LPG	55.13	10.40	25.00	Litr
Olew 28 sec	0	4.90	18.80	Litr
Glo	0	4.80	13.80	Kg
Trydan brig	37.67	21.07	7.59	KWh
Economi 7(allfrig)	13.37	7.97	2.87	KWh
Economi 7(brig)	37.67	22.29	8.03	KWh

2.7 Amrywiadau mewn prisiau tanwydd

Un o amcanion yr astudiaeth yw asesu pa mor sensitif yw'r bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd i gynnydd ym mhrisiau tanwydd.

Y tueddiadau diweddar yw bod prisiau tanwydd wedi gostwng yn hytrach na chynyddu. Ar gyfer defnyddwyr domestig, mae'r prisiau cyffredinol mewn gwir dermau wedi gostwng o 10% i nwy ac 19% i drydan rhwng 1997 a 2002 (Papur Gwyn Ynni, 2003)

Fodd bynnag, mae hyn yn newid oherwydd:

- Yr angen i fewnforio mwy o nwy o Ewrop.
- Ansefydlogrwydd yn y Dwyrain Canol sy'n cael effaith ar bris olew.
- Rhwymedigaeth Adnewyddadwyaeth.
- Cynnydd yn y galw am LPG ar gyfer cludiant.

Ers i NES ddechrau'r astudiaeth hon, mae Nwy Prydain ac Npower wedi cynyddu eu prisiau o oddeutu 10%.

Rydym wedi edrych ar bedair senario yn yr astudiaeth hon; cynnydd cyfartal o 5%, 10%, 20% a 30% yng nghost pob math o danwydd.

2.8 Targedau lefelau SAP

Un o amcanion yr astudiaeth oedd gwerthuso effaith cyflwyno mwy o gymorth trwy HEES. Gellid cyflawni hyn trwy gynyddu'r grant a roddir a thrwy hynny'r nifer o fesurau, neu trwy gynyddu'r amrediad o fesurau i dargedu cartrefi sy'n anodd eu trin. Ymchwiliwyd i hyn trwy asesu'r effaith ar y niferoedd sy'n dioddef o dlodi tanwydd, trwy wella pob eiddo i leiafswm SAP set o 50, 60, 65, 70 etc. Roedd yn rhaid cyfrifo cost rhedeg tanwydd ar gyfer pob un o leiafswmiau lefelau SAP.

Y broblem gyda hyn yw na ellir defnyddio SAP i amcangyfrif cyfanswm cost rhedeg cartref. Ar wresogi a dŵr twym yn unig y seilir SAP ac nid yw'n ystyried lleoliad. Ar gyfer cyfanswm cost rhedeg cartref, mae'n rhaid amcangyfrif cost goleuo, offer, coginio a chostau sefydlog.

Yn yr astudiaeth hon, defnyddiwyd y cymhwysiad sy'n seiliedig ar Dabl Cost NHER i gael amcangyfrifon o gostau rhedeg yr eiddo o'i gyfradd ynni ac arwynebedd y llawr.

Mae hyn yn cyd-fynd â bwriad gwreiddiol Tabl Cost NHER, sef galluogi trigolion i amcangyfrif costau rhedeg yr eiddo o'i NHER ac arwynebedd y llawr, gan alluogi cymharu gwahanol eiddo. Mae'n ddull gweithredu cadarn ac yn seiliedig ar gyfartaledd costau tanwydd y tair mlynedd flaenorol, sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol.

Mae'r costau rhedeg a ganlyn wedi eu cyfrifo ar gyfer Meddiant Safonol. Yna cywirwyd i amcangyfrif y costau rhedeg ar gyfer y Patrwm Gwresogi priodol (Estynedig, Cymysg neu Safonol), ar sail y gymhareb rhwng costau tanwydd ar gyfer yr eiddo penodol ar Wresogi Safonol, Cymysg a Rhannol. Cywirwyd hefyd i newid o gyfartaledd costau tanwydd tair mlynedd i gostau tanwydd cyfredol.

2.9 Yr Holiadur

Mae'r atebion i'r cwestiynau allweddol a restrir yn adran 1.2 yn dibynnu ar gael gwybodaeth gywir a manwl o incwm y cartrefi hyn sy'n derbyn grant ac effeithlonrwydd ynni eu heiddo.

Defnyddiwyd holiaduron a anfonwyd drwy'r post i dderbyn y wybodaeth angenrheidiol. Anfonwyd nifer o holiaduron i bob cartref a gofynnwyd i bob oedolyn lenwi eu holiadur eu hunain. Roedd y cwestiynau am incwm oddi fewn i restr faith o gwestiynau yn gofyn am wybodaeth am y cartref a barn a phrofiad yr ymatebwyr o dlodi.

Treialwyd yr holiadur gyda chyfweliadau personol. Bwriad y treialu oedd darganfod:

- Cyfanswm incwm y cartref, trwy edrych ar ba fudd-daliadau yr oedd y cartref yn eu derbyn, lefelau incwm unigol ac incwm oedolion eraill a oedd yn byw yn yr eiddo.
- Lefel yr amddifadedd a brofwyd o fewn y cartref.
- Cyfansoddiad y cartref.
- Mesurau goddrychol tlodi tanwydd e.e. dirnadaeth deiliad y cartref o'i allu i gynhesu'r cartref i lefel gyfforddus.
- Dirnadaeth deiliad y cartref o ddigonolrwydd ei incwm i gynnal safon byw rhesymol.
- Iechyd yr ymatebydd ac eraill o fewn y cartref.

Defnyddiodd yr holiadur gwestiynau a geirfa a ddefnyddiwyd mewn arolygon eraill ac a roddodd ganlyniadau dilys, er enghraifft Cwestiynau Harmoneiddio y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a osodwyd a phrotocol cwestiynau EuroQol 5D ar gyfer mesur iechyd.

Gwnaethpwyd yr astudiaeth beilot yn Ebrill 2004 ac roedd yn cynnwys yr un grŵp targed o dderbynwyr HEES, ond roedd wedi ei gyfyngu i ardaloedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, oherwydd rhesymau logistaidd. Roedd yr astudiaeth beilot yn ceisio:

- Gwirio eglurder y cwestiynau a ofynnwyd
- Cynnwys ymatebion ychwanegol i gwestiynau amlddewis petai'r grŵp peilot yn cynnig gwybodaeth nad oedd yn cael ei chynnwys ar y rhestr amlddewis, yn gyson.
- Asesu'r cyfraddau ymateb.

Anfonwyd at 455 o dderbynwyr grantiau, gyda llythyr paratoi yn eu hatgoffa eu bod wedi derbyn grant HEES yn ddiweddar a bod y Cynulliad Cenedlaethol yn y broses o werthuso effeithlonrwydd y grant ac y gellid cysylltu â hwy yn ddiweddarach i ateb cwestiynau ar eu grant. Gwnaethpwyd galwadau ffôn dilynol i wneud cais am gyfweiliad, hyd y llwyddwyd i gael sampl o 50. Roedd yn rhaid gwneud galwad ffôn i 90 o dderbynwyr er mwyn cael y sampl o 50 a oedd ei angen.

Amlygodd y treialu hwn opsiynau pellach i'r cwestiynau amlddewis a'r angen i symleiddio'r cwestiynau ar incwm a chyfansoddiad y cartref. Yn ogystal, cynhwyswyd cwestiwn newydd yn gofyn i'r dderbynwyr wneud sylw ar holl brofiad HEES. Mae'r holiadur terfynol, y llythyr paratoi a'r hysbysiad prosesu teg yn cael eu dangos yn Atodiadau 2, 3 a 4.

3. Sampl HEES

3.1 Data gan EAGA

Dangosodd ffeiliau data a dderbyniwyd oddi wrth EAGA bod 24,124 o ddeiliaid yn derbyn grant HEES rhwng Mawrth 2001 ac Ionawr 2004. Mewnosodwyd data a ddarparwyd gan yr EAGA i feddalwedd Probase NHER a'i brosesu trwy Auto Evaluator 4.1 NHER. O'r 24,124 cofnod, rhoddodd 20,200 werthusion ar gyfer yr SAP, cyn ac ar ôl y gwelliannau. Cyfartaledd SAP y cartrefi cyn y gwelliannau oedd 44 ac ar ôl y gwelliannau fe gododd i 58. Fe wnaeth yr angen am lefelau meddiant cyflawn (angenrheidiol i gyfrifo'r costau rhedeg) leihau'r sampl i 14,522. Roedd angen data personol, ychwanegol i sicrhau mai'r cartrefi a wnaeth gais, ac a oedd yn gymwys ar gyfer y grant HEES, yn unig, a gwblhaodd yr holiaduron. Defnyddiwyd dyddiadau geni i draws wirio mai ymatebydd yr arolwg a oedd yn ymgeisio am HEES. Roedd yr angen am ddyddiad geni yn lleihau set ddata'r EAGA ymhellach i 13,040.

Rhannwyd cyfanswm poblogaeth derbynwyr HEES yn ôl y math o gartref (Tabl 3.1) a'r budd-dâl cymhwyso (Tabl 3.2). Er syndod, efallai, mewn mwy na 13% o'r cofnodion ni nodwyd beth oedd y budd-dâl perthnasol ac mewn 24% o achosion, ni nodwyd y math o gartref. Ar adeg arolwg HEES, rhaid i'r arolygwr gofnodi'r math o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddangos bod budd-dâl perthnasol yn cael ei dderbyn e.e. paslyfr a chyfeirnod. Hefyd, dylid nodi'r cod sy'n berthnasol i'r math arbennig o fudd-dâl ar y ffurflen. Trwy gamgymeriad yr arolygydd, naill ai trwy beidio â chynnwys y cod neu trwy gynnwys cod anhysbys, cofnodwyd 13% o'r budd-daliadau cymwys fel rhai anhysbys mewn dros 13% o'r cofnodion. Hefyd cofnodwyd canran sylweddol o'r mathau o gartrefi fel 'dim o'r uchod'. Mae'n bosibl fod y rhain wedi cynnwys cartrefi gyda 3 neu fwy oedolyn, er enghraifft.

Tabl 3.1: Ymgeiswyr HEES yn ôl y math o gartref

Math o gartref	Holl HEES		Postiwyd	
	Nifer	%	Nifer	%
1 Oedolyn	1,034	4.2	904	5.5
1 Oedolyn 1 Plentyn	1,393	5.8	610	5.5
1 Oedolyn 2+ Plentyn	1,857	7.7	726	6.4
1 Pensiynwr	6,348	26.3	5,288	37.9
2 Oedolyn 1 Plentyn	1,281	5.3	794	3.9
2 Oedolyn 2+ Plentyn	1,885	7.8	1,097	8.4
2 Bensiynwr	4,522	18.7	3,621	25.6
Dim o'r uchod	4,028	16.7		
Yn eisiau	1,833	7.6		
Cyfanswm	24,124	100	13,040	100

Tabl 3.2 Ymgeiswyr HEES yn ôl cymhwysedd budd-dâl

Math o fudd-dâl	Holl HEES		Postiwyd	
	Nifer	%	Nifer	%
Lwfans Gweini	3,300	13.7	2,418	18.5
Budd-dâl Treth Gyngor	1,109	4.6	753	5.8
Lwfans Byw i'r Anabl	7,862	32.6	3,937	30.2
Budd-dâl Tai	1,025	4.2	829	6.4
Cymhorthdal Incwm	5,221	21.6	3,471	26.6
Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio	1,823	7.6	1,366	10.5
Arall#	421	1.7	266	2.0
Anhysbys	3,363	13.9		
Cyfanswm	24,124	100	13,040	100

yn cynnwys premiwm anabledd, credyd treth person anabl, lwfans ceisio gwaith seiliedig ar incwm, budd-dâl rhiant sengl a phensiwn anabledd rhyfel

3.2 Ymatebion i'r Arolwg

Anfonwyd yr holiadur at 18,552 oedolyn mewn 13,040 eiddo. Dychwelwyd 2,710 o holiaduron i NES, er i 698 gael eu gwrthod oherwydd i ddeiliad y cartref nodi:

- Na allai ddweud beth oedd ei incwm ar adeg y grant (312);

Honni nad oedd wedi derbyn grant (150);

- Heb gwblhau'r holiadur yn ddigonol i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol (136)
- Dweud bod nifer y bobl yn eu cartref wedi newid (52);
- Wedi marw (17); neu
- Wedi newid ei gyfeiriad (31).

Derbyniwyd 2,012 holiadur defnyddiol o 1,680 cartref, o fewn yr amser a bennwyd. Rhoddir dadansoddiad o'r holiaduron a ddychwelwyd isod.

Fel y disgwyliid, roedd canran yr arolygon a ddychwelwyd gan bensiynwyr yn uwch na'r gyfradd o bensiynwyr hysbys a gynrychiolwyd ym mhoblogaeth gyffredinol HEES (Tabl 3.3).

Pan nad oedd nifer yr oedolion neu blant a restrwyd yn yr holiadur yn cyfateb i'r math o gartref a nodwyd yn y data a osodwyd gan EAGA, newidiwyd cyfansoddiad y cartref i 'Dim o'r uchod'. Cynrychiolwyd pob math o gartref yn dda yn yr arolygon a ddychwelwyd.

Tabl 3.3 Yr arolygon a ddychwelwyd yn ôl y Math o Gartref

Math o gartref	% o'r holiaduron a ddychwelwyd	% Cyfanswm HEES [#]
1 Oedolyn	5.6	4.2
1 Oedolyn 1 Plentyn	4.6	5.8
1 Oedolyn 2+ Plentyn	5.9	7.7
1 Pensiynwr	38.6	26.3
2 Oedolyn 1 Plentyn	4.0	5.3
2 Oedolyn 2+ Plentyn	8.1	7.8
2 Bensiynwr	26.3	18.7
Ni nodwyd	6.9	24.1
Cyfanswm	100	100

[#] o Dabl 3.1

Cynrychiolwyd pob un o'r budd-daliadau cymhwys yn dda yn y sampl o arolygon a ddychwelwyd (Tabl 3.4). Fodd bynnag, roedd cyfradd yr ymateb oddi wrth bobl ar lwfans byw i'r anabl a budd-dâl tai yn is nag a oedd yng nghyfanswm poblogaeth HEES.


Tabl 3.4 Yr arolygon a ddychwelwyd yn ôl budd-daliadau cymhwys

Math o fudd-dâl	% o'r holiaduron a ddychwelwyd	% Cyfanswm HEES [#]
Lwfans Gweini	14.6	13.7
Budd-dâl Treth y Cyngor	7.3	4.6
Lwfans Byw i'r Anabl	27.8	32.6
Budd-dâl Tai	1.9	4.2
Cymhorthdal Incwm	21.9	21.6
Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio	6.3	7.6
Arall	1.8	1.7
Anhysbys	18.4	13.9
Cyfanswm	100	100

[#] o Dabl 3.2

Mae dadansoddiad o oedran y rhai a ymatebodd ac a ddychwelodd holiaduron dilys yn dangos dosbarthiad bimodal trawiadol iawn (gweler Ffigwr 3.1 isod) gyda dau uchafbwynt o gwmpas 40 a 70 mlwydd oed.

Ffigwr 3.1: Dosbarthiad oedran yr ymatebwyr



Oherwydd meini prawf cymhwyster derbyn grantiau HEES, nid yw dosbarthiad oedran biomodal y derbynwyr yn syndod.

3.3 Mesur incwm o'r arolygon a ddychwelwyd


Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y canlynol i bob un o'r ymatebwyr y budd-daliadau y maent yn eu derbyn

- budd-daliadau aelodau eraill eu cartref
- eu ffynhonnell incwm eu hunain
- Ffynonellau eraill o incwm a dderbynnir gan aelodau eraill o'r cartref
- incwm wythnosol net eu hunain
- incwm wythnosol net eu cartref
- newidiadau yn eu hincwm eu hunain ers derbyn grant HEES
- newidiadau yn incwm y cartref ers derbyn grant HEES
- manylion costau byw y cartref


Cyfrifwyd incwm y cartref ar adeg derbyn grant HEES trwy dynnu neu ychwanegu unrhyw newid yn incwm y cartref presennol; nododd 31% o gartrefi peth newid mewn incwm ers derbyn grant HEES. Pan oedd mwy nag un ymatebydd mewn cartref, defnyddiwyd swm y cwestiynau am incwm unigol, yn hytrach nac atebion i'r cwestiynau am incwm y cartref.

O'r 2,012 o holiaduron dilys, atebodd 1,842 (91%) o'r ymatebwyr y cwestiwn ar incwm unigol ac atebodd 1,737 (86%) y cwestiwn ar incwm y cartref. Defnyddiwyd cwestiwn band incwm yn unol ag argymhellion y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (atodiad 5). Mae Ffigyrau 3.2 a 3.3 yn dangos histogram o incwm wythnosol yr unigolyn a'r cartref. Mae'r ddau histogram yn gwyro, gyda phentyrru sylweddol o gwmpas band incwm £100 - £200. Un rheswm am hyn yw bod nifer sylweddol o'r rhai'n ymateb i'r arolwg hwn a'u cartrefi yn dibynnu ar fudd-dâl y wladwriaeth – yn enwedig pensiynau.

Ffigwr 3.2: Incwm wythnosol ymatebwyr



Ffigwr 3.3: Incwm wythnosol y cartref



Mae Tabl 3.5 yn dangos cyfartaledd incwm wythnosol yn ôl y math o gartref. Mae'n dangos bod cyfartaledd yr incwm yn cynyddu fel y mae nifer yr oedolion a chyfanswm y nifer sydd yn y cartref yn cynyddu.

Tabl 3.5 Cyfartaledd incwm wythnosol yn ôl y math o gartref


Math o gartref	Incwm wythnosol £
1 Oedolyn	139
1 Oedolyn 1 Plentyn	145
1 Oedolyn 2+	195
Plentyn	
1 Pensiynwr	144
2 Oedolyn 1 Plentyn	258
2 Oedolyn 2+	313
Plentyn	
2 Bensiynwr	229
Ni nodwyd	256

3.4 Pwysoli ymatebion yr arolwg

Dychwelodd cyfradd uwch o bensiynwyr eu harolygon na fyddid wedi ei ddisgwyl gan sampl o ymgeiswyr HEES a ddewiswyd ar hap (Tabl 3.3). Mae'n bwysig bod y data yn cael ei bwysoli i addasu ar gyfer unrhyw ddiffyg ymateb gwahaniaethol rhwng cartrefi pensiynwyr a chartrefi teuluoedd ieuengach. Felly, cyfrifwyd pwysolion poblogaeth ôl-haeniad gan ddefnyddio'r dull calibreiddio cyffredinol (Deville et al, 1993) i addasu ar gyfer y tuedd sampl hwn yn ôl y math o gartref. Mae'r dull hwn yn rheoli maint y sampl a bwysolir ar yr un pryd i nifer o boblogaethau lleiafrifol ar wahân (Elliot, 1999). Er enghraifft, petai ond hanner cymaint o ddynion ifanc yn ymateb i arolwg ag sydd yn y boblogaeth gyffredinol, bydd nifer y dynion ifanc yn cael eu pwysoli i fyny a gweddill y boblogaeth yn cael eu pwysoli i lawr fel bod maint y sampl yn aros yr un peth ond bod cyfartaledd y dynion ifanc i weddill y boblogaeth wedi ei gywiro.


Mae Ffigwr 3.4 yn dangos dosbarthiad incwm cartref llawn (gan gynnwys budd-dâl tai) wedi ei bwysoli i ganiatáu am dueddiadau sampl a gwahaniaethau diffyg ymateb (gweler adran 3.2). Cyfartaledd incwm wythnosol cartref llawn oedd £204.

Ffigwr 3.4 Incwm wythnosol cartref llawn



Mae Ffigwr 3.5 yn dangos incwm minws costau byw yn y cartref (incwm sylfaenol), eto wedi ei bwysoli i ganiatáu tueddiadau sampl a gwahaniaethau diffyg ymateb. Cyfartaledd yr incwm sylfaenol oedd £196.

Ffigwr 3.5 Incwm wythnosol cartref sylfaenol



Mae Atodiadau 6 a 7 yn dangos tabl llawn o ganlyniadau. Mae Atodiad 7 yn dangos amcangyfrif o nifer y derbynwyr HEES yn ôl eu prif nodweddion, gyda 95% o derfyn hyder, gan bwysoli'r canlyniadau yn ôl y math o gartref. Er mwyn cyflawnder, mae Atodiad 6 yn dangos nifer a chanran ymatebwyr yr arolwg.

Mae adran ganlyniadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion yr arolwg wedi ei bwysoli gan y mathau o gartrefi ym mhoblogaeth HEES. Casglwyd canlyniadau'r incwm trwy ddefnyddio addasiad o fersiwn y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol o brotocol cwestiynau band incwm wedi ei harmoneiddio (gweler <http://www.statistics.gov.uk/about/data/harmonisation/>). Dylai'r canlyniadau, felly, fod mor ddilys a dibynadwy â phosibl, o gofio cyfyngiadau methodoleg yr arolwg trwy'r post (gweler Atodiad 5 am drafodaeth fanwl ar ddilysrwydd a dibynadwyaeth yr incwm a fesurwyd yn yr arolwg hwn). Yn anffodus, nid oedd y grŵp yn ymwybodol o unrhyw arolwg arall o'r grŵp targed hwn a ellid ei ddefnyddio i gymharu'r lefelau incwm a gafwyd yn yr arolwg.

4. Canlyniadau

4.1 Cyffredinol

Mae Tabl 4.1 yn dangos canran derbynwyr HEES sydd mewn tlodi tanwydd o dan y ddau ddiffiniad o incwm.

Tabl 4.1 Canran y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn ôl cyfrifiad o incwm

Cyfrifiad incwm	Cyn	Ar ôl
Llawm (Yn cynnwys Budd-dâl Tai ac ISMI)	29.4	13.4
Sylfaenol (Ac eithrio Budd-dâl Tai ac ISMI)	34.2	19.0

Gan ddibynnu ar y diffiniad o incwm a ddefnyddiwyd, roedd naill ai 29.4% neu 34% o dderbynwyr HEES yn dioddef o dlodi tanwydd cyn derbyn grant. Symudodd oddeutu hanner y rhain allan o dlodi tanwydd ar ôl ymyrraeth HEES.

Yng ngweddill y canlyniadau, mae'r data yn seiliedig ar Incwm Llawm ac wedi ei bwysoli ar gyfer mathau o gartrefi ym mhoblogaeth HEES, lle yr amcangyfrifir bod 7,103 o gartrefi (29.4%) yn dioddef o dlodi tanwydd, cyn ymyrraeth HEES.

Mae'r niferoedd mewn tlodi tanwydd hefyd yn newid yn ôl y safon o gysur a bennir (Tabl 4.2). Roedd canran y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn amrywio o rwng 29.4% a 37.6%, gan ddibynnu ar lefelau meddiant a safonau gwresogi. Mae'r ffigur o 29.4% yn cyd-fynd â'r trefniant cymysg, yn unol â'r diffiniad o dlodi tanwydd a fabwysiadwyd gan y Cynulliad i bwrpas cyflwyno adroddiadau (CCC, Mawrth 2003). Yn y trefniant cymysg, tybir bod rhai teuluoedd allan drwy'r dydd, rhai adref drwy'r dydd a rhai yn gwresogi rhan o'u cartref ynn unig gan eu bod yn byw mewn cartref mwy na sydd ei wir angen arnynt.

Tabl 4.2 Canran o rai'n dioddef o dlodi tanwydd yn ôl patrwm gwresogi

Trefn Gwresogi a Dybir	Cyn ymyrraeth	Ôl ymyrraeth	% Gostyngiad
Estynedig	37.6	18.1	51.8
Cymysg (gan gynnwys tanfeddiant)	29.4	13.4	54.4
Safonol	34.4	15.4	55.2

Mae'r trefniant Cymysg yn cael ei ddefnyddio yng ngweddill yr astudiaeth hon. Yn ogystal, mae'r holl ganrannau i'r rhif cyflawn agosaf.

Nid oedd y mwyafrif sylweddol o dderbynwyr HEES yn dioddef o dlodi tanwydd neu roeddent yn dioddef o dlodi tanwydd cymedrol (tabl 4.3). Roedd llai na 4% mewn tlodi enbyd neu eithafol pan yn gwneud cais am grant. Yn ogystal, symudwyd dros hanner o'r derbynwyr a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth allan o dlodi tanwydd gan grant HEES.

Tabl 4.3 Categoriâu o dlodi tanwydd (%)

Difrifoldeb	Cyn ymyrraeth		Ôl ymyrraeth		Newid
	Nifer	%	Nifer	%	%
Ddim yn dioddef o dlodi tanwydd	17,022	71	20,902	87	23
Tlodi tanwydd cymedrol	6,228	26	2,908	12	56
Tlodi tanwydd enbyd	583	2	130	1	79
Tlodi tanwydd eithafol	291	1	194	1	42
Cyfanswm	24,124	100	24,124	100	

Mae dadansoddiad pellach yn yr adran hon mewn tair rhan. Yn gyntaf, yn y prif ddadansoddiad atebwyd pob un o'r nodau ac amcanion a restrwyd yn adran 1.2. Yn ail, mewn ymgais i gynorthwyo targedu, rhestrwyd canran y gostyngiad mewn tlodi tanwydd yn ôl nodweddion gwahanol. Yn olaf, mae nodweddion a safbwyntiau ymatebwyr yr arolwg wedi eu cyflwyno.

4.2 Y prif ddadansoddiad

4.2.1. Priodolrwydd y meini prawf cymhwyster

Amcangyfrifwyd bod 7,103 o dderbynwyr (29%) yn dioddef o dlodi tanwydd pan dderbyniasant gymorth. Mae Tabl 4.4 yn dangos amcangyfrif o'r nifer o ymgeiswyr tlodi tanwydd HEES yn ôl budd-dâl cymhwyso. Defnyddiodd canran uchel a nifer fawr o dderbynwyr tlodi tanwydd gymhorthdal incwm fel eu budd-dâl cymhwyso. Er bod canran uchel o'r cartrefi a ddefnyddiodd fudd-dâl tai fel eu budd-dâl cymhwyso yn dioddef o dlodi tanwydd, canran fechan yn unig o ymgeiswyr HEES yw'r grŵp hwn.

Tabl 4.4 Amcangyfrif o dderbynwyr HEES yn ôl budd-daliadau cymhwys

Budd-dâl cymhwys	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	Ddim yn dioddef	Cyfanswm	% o rai'n dioddef, yn ôl budd-dâl [†]
Lwfans Gweini	582	8	2,589	3,171	18
Budd-dâl Treth y Cyngor	631	9	971	1,602	39
Lwfans Byw i'r Anabl	1,812	26	5,226	7,038	26
Budd-dâl Tai	178	3	259	437	41
Cymhorthdal Incwm	2,119	30	2,686	4,805	44
Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio	307	4	1,586	1,893	16
Arall*	146	2	275	421	35
Anhysbys	1,327	19	3,430	4,757	28
Cyfanswm	7,103	100	17,021	24,124	29

[†] canran o fewn budd-dâl cymhwys, e.e. roedd 18% o'r holl gartrefi a ddefnyddiodd lwfans gweini fel eu budd-dâl cymhwys yn dioddef o dlodi tanwydd

* Mae arall yn cynnwys budd-dâl rhieni sengl, incwm yn seiliedig ar lwfans ceisio gwaith, pensiwn anabledd rhyfel, credyd treth person anabl, lwfans gweini cyson a phremiwm anabledd

4.2.2. Nodweddion y rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd

Mae nodweddion y rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd wedi ei gyflwyno gan y ffigyrau yn nhablau 4.5, 4.6, 4.7, 4.8 a 4.9 isod. Yn gyffredinol, roedd cartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd yn gartrefi gyda phensiynwyr neu gydag un oedolyn yn unig. Roedd nifer sylweddol o'r rhai a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd ac yn gwneud cais am grant HEES yn byw ac yn berchen ar eu cartrefi, yn gartrefi'n defnyddio nwy fel eu prif danwydd gwresogi a chartrefi, a oedd o bosibl, yn rhy fawr i'r rhai a oedd yn byw ynddynt (Tabl 4.8). Mae Tabl 4.8 yn dangos fod 79% o bensiynwyr, sy'n dioddef o dlodi tanwydd, yn byw mewn cartrefi sy'n rhy fawr iddynt.

Tabl 4.5 Amcangyfrif o dderbynwyr HEES sy'n dioddef o dlodi tanwydd, yn ôl y math o gartref

Math o gartref	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	Ddim yn dioddef	Cyfanswm	% o rai'n dioddef, yn ôl math [†]
1 Oedolyn	566	8	550	1,116	50
1 Oedolyn 1 Plentyn	680	10	582	1,262	54
1 Oedolyn 2+ Plentyn	760	11	1,149	1,909	40
1 Pensiynwr	2,783	39	4,239	7,022	40
2 Oedolyn 1 Plentyn	340	5	1,084	1,424	24
2 Oedolyn 2+ Plentyn	194	3	1,764	1,958	10
2 Bensiynwr	939	13	4,061	5,000	19
Arall	841	12	3,592	4,433	19
Cyfanswm	7,103	100	17,021	24,124	29

[†] Canran o fewn y math o gartref e.e. 50% o gartrefi oedolion sengl yn unig a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd

Tabl 4.6 Amcangyfrif o rai'n dioddef o dlodi tanwydd yn ôl deiliadaeth

Deiliadaeth	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	Ddim yn dioddef	Cyfanswm	% o rai'n dioddef, yn ôl deiliadaeth [†]
Cyngor	1,006	14	2,216	3,222	31
Cymdeithas Dai	456	6	1,050	1,506	30
Perchennog Ddeiliad	5,381	76	13,287	18,668	29
Rhentu'n Breifat	243	3	469	712	34
Cyfanswm	7,103	100	17,021	24,124	29

[†] canran o fewn deiliadaeth e.e. roedd 31% o denantiaid y cyngor yn dioddef o dlodi tanwydd

Tabl 4.7 Amcangyfrif o rai'n dioddef o dlodi tanwydd yn ôl prif danwydd gwresogi

Prif danwydd gwresogi cyn ymyrraeth	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	Ddim yn dioddef	Cyfanswm	% o rai'n dioddef, yn ôl y math o danwydd
Nwy	3,733	53	12,750	16,483	23
LPG	231	3	158	389	59
Olew	261	4	680	941	28
Glo cartref	780	11	2,156	2,936	27
Glo di-fwg	82	1	32	114	72
Trydan	1,821	26	710	2,531	72
uniongyrchol†					
Trydan allfrig	198	3	532	730	27
Cyfanswm	7,103	100	17,022	24,124	29

† Defnyddio trydan fel y bo angen ar dariff sefydlog 24 awr yn hytrach na storio gwres o dariff rhatach (e.e. Defnyddio stôr-wresogyddion ac economi 7/tariff allfrig)

Tabl 4.8 Amcangyfrif o rai'n dioddef o dlodi tanwydd yn ôl y math o gartref a than-feddiant†

Math o gartref	Tan-feddiant				Cyfanswm
	Nac ydy	Nac ydy (%)*	Ydy	Ydy(%)*	
1 Oedolyn	92	1	474	7	566
1 Oedolyn 1 Plentyn	490	7	189	3	680
1 Oedolyn 2+ Plentyn	695	10	65	1	760
1 Pensiynwr	568	8	2,215	31	2,783
2 Oedolyn 1 Plentyn	315	4	25	1	340
2 Oedolyn 2+ Plentyn	173	2	21	0	194
2 Bensiynwr	564	8	374	5	393
Arall	804	11	38	1	841
Cyfanswm	3,700	52	3,403	48	7,103

† Gweler adran 2.5 ac atodiad 1 am ddadansoddiad o dan-feddiant

*% o'r holl rai'n dioddef o dlodi tanwydd

Mae Tabl 4.9 yn dangos amcangyfrif o rai'n dioddef o dlodi tanwydd, yn ôl lefel incwm. Mae'n dangos, er bod yr achos o dderbynwyr grantiau gydag incwm o dros £300 yr wythnos yn 3,716 (15%), dim ond 43 ohonynt sy'n dioddef o dlodi tanwydd (llai na 1%).

Tabl 4.9 Amcangyfrif o rai'n dioddef o dlodi tanwydd, yn ôl incwm wythnosol

Incwm wythnosol	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	Ddim yn dioddef	Cyfanswm	% o rai'n dioddef yn ôl incwm
< £100	2,048	29	173	2,221	92
£100-£150	3,715	52	3,665	7,380	50
£150-£200	791	11	3,842	4,633	17
£200-£250	379	5	4,083	4,462	9
£250-£300	125	2	1,587	1,712	7
£300+	43	1	3,673	3,716	1
Cyfanswm	7,103	100	17,021	24,124	29

4.2.3. Cartrefi a symudwyd allan o dlodi tanwydd

Amcangyfrifwyd bod y nifer o gartrefi a symudwyd allan o dlodi tanwydd o ganlyniad i dderbyn y mesurau o'r grant HEES yn 3,871 (55%). Mae Tabl 4.10 yn dangos amcangyfrif o'r nifer yn derbyn cymorth tlodi tanwydd cyn ac ar ôl ymyrraeth HEES. Defnyddiodd bron i hanner y cartrefi a symudwyd allan o dlodi tanwydd eu cymhorthdal incwm neu lwfans byw'r anabl fel eu budd-dâl cymhwysu ar gyfer HEES (er eu bod yn hawlio budd-daliadau eraill o bosibl).

Tabl 4.10 Amcangyfrif o dderbynwyr HEES yn ôl budd-dâl cymhwysu

Budd-dâl cymhwysu	Cyn ymyrraeth		Ôl ymyrraeth		% wedi symud allan o dlodi tanwydd [†]
	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	
Lwfans Gweini	582	8	241	7	59
Budd-dâl Treth Gyngor	631	9	273	8	57
Lwfans Byw i'r Anabl	1,812	26	741	23	59
Budd-dâl Tai Cymhorthdal Incwm	178	3	79	2	56
Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio	2,119	30	888	27	58
Arall	307	4	242	7	21
Anhysbys	146	2	80	2	45
Cyfanswm	1,327	19	694	21	48
	7,103	100	3,232	100	55

[†] canran o fewn budd-dâl cymhwysu

Roedd cartrefi pensïynwyr (pensïynwyr sengl a chyplau) yn gyfrifol am dros 50% o'r holl rai'n dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth. Golygodd y grant HEES bod 57% o'r pensïynwyr hyn yn cael eu symud allan o dlodi tanwydd, ffigwr sylweddol o ystyried niferoedd uwch cartrefi o'r fath (Tabl 4.11).

Tabl 4.11 Amcangyfrif o rai'n dioddef o dlodi tanwydd a symudwyd allan o dlodi ar ôl ymyrraeth HEES, yn ôl y math o gartref

Math o gartref	Cyn ymyrraeth % o'r holl rai'n		Ôl ymyrraeth % o'r holl rai'n		% symudwyd allan o dlodi tanwydd [†]
	Yn dioddef	dioddef	Yn dioddef	dioddef	
1 Oedolyn	566	8	324	10	43
1 Oedolyn 1 Plentyn	680	10	357	11	48
1 Oedolyn 2+ Plentyn	760	11	373	12	51
1 Pensiynwr	2,783	39	1,170	36	58
2 Oedolyn 1 Plentyn	340	5	163	5	52
2 Oedolyn 2+ Plentyn	194	3	97	3	50
2 Bensiynwr	939	13	415	13	56
Arall	841	12	332	10	61
Cyfanswm	7,103	100	3,232	100	55

[†] canran a symudwyd allan o dlodi tanwydd yn ôl y math o gartref

Symudodd nifer fawr o rai a oedd yn byw ac yn berchen ar eu cartrefi eu hunain (2956 o gartrefi, 55%) allan o dlodi tanwydd (Tabl 4.12). Er bod y nifer yn llai o ran nifer, symudodd canran uchel o denantiaid y cyngor (52%) a thenantiaid cymdeithasau tai (61%) allan o dlodi tanwydd yn ogystal, yn sgîl ymyrraeth HEES, ond roedd yr effeithiolrwydd yn is i dderbynwyr yn y sector rhentu preifat. Symudwyd canran uchel o gartrefi a oedd yn defnyddio nwy neu drydan uniongyrchol fel eu prif danwydd gwresogi allan o dlodi tanwydd (Tabl 4.13). O ran canran, symudwyd 49% o gartrefi, a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd ac yn dibynnu ar nwy, allan o dlodi tanwydd a 78% o gartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd ac yn dibynnu ar drydan uniongyrchol, yn dilyn ymyrraeth HEES.

Tabl 4.12 Amcangyfrif o rai'n dioddef o dlodi tanwydd yn dilyn ymyrraeth HEES

Math o gartref	Cyn ymyrraeth % o'r holl rai'n		Ôl ymyrraeth % o'r holl rai'n		% symudwyd allan o dlodi tanwydd [†]
	Yn dioddef	dioddef	Yn dioddef	dioddef	
Cyngor	1,006	14	481	15	52
Cymdeithasau Tai	456	6	179	6	61
Perchennog Preswylwr	5,381	76	2,425	75	55
Rhentu Preifat	243	3	147	4	40
Cyfanswm	7,103	100	3,232	100	55

[†] canran a symudwyd allan o dlodi tanwydd o fewn y cyfnod

Tabl 4.13 Amcangyfrif o rai'n dioddef o dlodi tanwydd a symudwyd allan o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth, yn ôl prif danwydd gwresogi

Math o gartref	Cyn ymyrraeth		Ôl ymyrraeth		% a symudwyd allan o dlodi tanwydd [†]
	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	Yn dioddef	% o'r holl rai'n dioddef	
Nwy	3,733	53	1,906	59	49
LPG	231	3	179	6	23
Olew	261	4	125	4	52
Glo cartref	780	11	455	14	42
Glo di-fwg	82	1	57	2	30
Trydan	1,821	26	398	12	78
uniongyrchol*					
Trydan allfrig	198	3	113	3	43
Cyfanswm	7,103	100	3,232	100	55

* Defnyddio trydan fel y bo'r angen ar dariff 24 awr sefydlog, yn hytrach na storio gwres o dariff rhatach (e.e. defnyddio gwresogyddion storio a thariff economi 7)

[†] Canran a symudwyd allan o dlodi tanwydd o fewn tanwydd gwresogi.

4.2.4. Cartrefi'n parhau'n dlawd ar ôl ymyrraeth HEES

Nifer y cartrefi oedd yn parhau i ddiodeff o dlodi tanwydd ar ôl ymyrraeth HEES oedd 3,232. Cynrychiola hyn ostyngiad o 54%. Defnyddiodd dros hanner y cartrefi hyn gymhorthdal incwm neu fudd-dâl anabledd fel eu budd-dâl cymhwys (Tabl 4.10). Mae Tabl 4.14 yn dangos nifer y cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd yn ôl math a than-feddiant, cyn ac ar ôl ymyrraeth HEES. Mae bron i 50% o'r rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn byw mewn cartrefi a all fod yn rhy fawr iddynt ac roedd dros draean o'r boblogaeth a oedd yn parhau i ddiodeff o dlodi tanwydd yn dilyn ymyrraeth HEES yn bensiynwyr (naill ai pensiywyr sengl neu gyplau) mewn cartrefi mawrion.

Tabl 4.14 Amcangyfrif o dlodi tanwydd yn ôl y math o gartref a than-feddiant yn dilyn ymyrraeth HEES

Math o gartref	Tan-feddiant				Cyffredinol
	Nac ydyn		Ydyn		
	Yn dioddef	%	Yn dioddef	%	
1 Oedolyn	52	2	271	8	324
1 Oedolyn 1 Plentyn	284	9	73	2	357
1 Oedolyn 2+ Plentyn	307	9	66	2	373
1 Pensiynwr	311	9	858	27	1,170
2 Oedolyn 1 Plentyn	139	4	23	1	163
2 Oedolyn 2+ Plentyn	77	2	20	1	97
2 Bensiynwr	227	7	187	6	415
Arall	295	9	37	1	332
Cyfanswm	1,691	52	1,536	48	3,232

4.2.5. Nifer o gartrefi heb amddiffyniad yn erbyn cynnydd ym mhris tanwydd

Mae Tabl 4.15 isod yn dangos sensitifwydd tlodi tanwydd i gynnydd ym mhris tanwydd. Byddai cynnydd o 20% mewn prisiau tanwydd yn arwain at bron i ddwbl y

nifer o gartrefi yn dioddef o dlodi tanwydd yn dilyn ymyrraeth HEES. Byddai cynnydd o 30% mewn cost tanwydd yn golygu bod bron i 30% o dderbynwyr grantiau HEES yn dioddef o dlodi tanwydd. Fodd bynnag, cyn ymyrraeth HEES byddai cynnydd o 20% mewn cost tanwydd yn golygu y byddai 36% o'r boblogaeth a fyddai yn ei dderbyn yn dioddef o dlodi tanwydd (yn hytrach na 29%) a byddai cynnydd yng nghost tanwydd o 30% yn cynyddu lefel tlodi tanwydd yn y boblogaeth cyn ymyrraeth i 40%.

Tabl 4.15 Y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn ôl cynnydd yng nghost tanwydd (% o holl dderbynwyr HEES)

	Cyfanswm		Enbyd/eithafol	
	Nifer	%	Nifer	%
0%	3,232	13	324	1
5%	3,675	15	388	2
10%	4,257	18	404	2
20%	5,618	23	469	2
30%	7,059	29	648	3

4.2.6. Effaith cyflwyno rhagor o gymorth (yn nhermau gwelliannau SAP)

Cyfartaledd SAP y sampl cyfan, 20,026 o gartrefi, gyda digon o wybodaeth i gyfrifo SAP, oedd 44, cyn ymyrraeth HEES. Cynyddodd cyfartaledd y SAP yn dilyn ymyrraeth i 58. Mae Tabl 4.16 yn dangos sut y newidiodd y SAP yn dilyn ymyrraeth HEES.

Tabl 4.16 SAP eiddo cyn ac yn dilyn ymyrraeth HEES (% o 20,026)

SAP cyn HEES	SAP cyn ymyrraeth									Cyfanswm cyn-HEES
	<20	20-30	30-40	40-50	50-55	55-60	60-65	65+		
<20	3	1	1	1	1	1	1	3		11
20-30		2	1	1	1	1	1	2		8
30-40			3	3	1	1	1	3		12
40-50				8	3	4	6	7		28
50-55					2	3	3	6		15
55-60						3	3	4		11
60-65							2	5		7
65+								8		8
Cyfanswm ôl	3	3	5	13	8	12	17	38		100

Mae Tabl 4.17 yn dangos lefel tlodi tanwydd cyn ac yn dilyn ymyrraeth yn ôl SAP yr eiddo cyn ymyrraeth. Mae perthynas glir rhwng SAP yr eiddo cyn ymyrraeth a thlodi tanwydd (Tabl 4.17). Fel y disgwyliid, gostyngodd achosion o dlodi tanwydd fel y cynyddai SAP y cartref. Er bod cyfartaledd cartrefi gyda SAP is nag 20 wedi gostwng o 11% i 3% gydag ymyrraeth HEES (Tabl 4.16), roedd canran y cartrefi mewn tlodi tanwydd yn y band SAP hwn yn parhau'n eithaf uchel ar 30% cyn ymyrraeth (Tabl 4.17). Dengys hyn fod y mesurau i waredu nifer o gartrefi o dlodi tanwydd, a ddilynodd HEES, yn annigonol.

Tabl 4.17 Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl SAP eu cartrefi pan gynhaliwyd arolwg HEES

SAP y cartref	Cyn ymyrraeth		Ôl ymyrraeth		Gostyngiad
	Nifer	%	Nifer	%	%
<20	2,286	80	875	30	62
20 – 30	936	52	391	22	58
30 – 40	1,209	36	575	17	52
40 – 50	1,653	26	760	12	54
50 – 55	569	19	325	11	45
55 – 60	269	14	188	10	31
60 – 65	159	10	118	8	26
65+	23	3	0	0	100
Cyfanswm	7,103	29	3,232	13	54

Dangosir effaith gwella cyfradd SAP pob eiddo i lefelau lleiafswm amrywiol yn Nhabl 4.18. Mae'r ffaith fod targed o 100 SAP hyd yn oed yn gadael 1% o gartrefi mewn tlodi tanwydd, ac ynghyd â'r ffaith fod oddeutu 25% o'r stoc tai yn anodd eu trin, oherwydd waliau solet, yn awgrymu y bydd yn anodd iawn i wella i SAP sy'n cyrraedd 60 hyd yn oed, a dengys nad yw mesurau defnyddio ynni'n effeithlon yn unig yn ddigon i gael gwared ar dlodi tanwydd.

Tabl 4.18 Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl gwerth SAP targed

Gwella'r cartref i	Ôl ymyrraeth		Gostyngiad
	Nifer	%	%
Ar hyn o bryd	3,232	13	A
SAP 50	2,461	10	24
SAP 55	2,244	9	31
SAP 60	2,075	9	36
SAP 65	1,810	8	44
SAP 70	1,689	7	48
SAP 80	1,062	4	67
SAP 90	459	2	86
SAP 100	240	1	93

Mae Adrannau 4.2.7 i 4.2.12 yn dangos dadansoddiadau yn ôl nifer o nodweddion allweddol a'u holl is-gategoriâu, er bo niferoedd rhai'n fychan. Er, o bosibl, nad yw rhai o'r is-gategoriâu hyn yn cyfrannu llawer tuag at egluro tlodi tanwydd, gall canran y gostyngiadau gynorthwyo'r Cynulliad i dargedu yn y dyfodol.

4.2.7. Tlodi tanwydd yn ôl y math o gartref

Mae Tabl 4.19 yn dangos lefel uchel o dlodi tanwydd cyffredinol a thlodi tanwydd enbyd/eithafol ymhlith oedolion sengl, rhieni sengl gyda phlant a chartrefi pensiynwyr sengl, cyn ac yn dilyn ymyrraeth HEES. Dim ond 43% o gartrefi oedolion sengl a symudwyd allan o dlodi tanwydd gan grant HEES o'i gymharu â 50% ar gyfer y mathau eraill o gartrefi.

Tabl 4.19 Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl y math o gartref

Categori	Cyn ymyrraeth				Ôl ymyrraeth				Gostyngiad Cyfanswm
	Cyfanswm		Enbyd/ Eithafol		Cyfanswm		Enbyd/ Eithafol		
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	
1 Oedolyn	567	51	65	6	324	29	32	3	43
1 Oedolyn 1 Plentyn	680	54	48	4	357	28	16	1	48
1 Oedolyn 2+ Plentyn	760	40	98	5	373	20	4	3	51
1 Pensiynwr	2,783	40	372	5	1170	17	81	1	58
2 Oedolyn 1 Plentyn	340	24	0	0	163	11	0	0	52
2 Oedolyn 2+ Plentyn	194	10	16	0	97	5	16	1	50
2 Bensiynwr	939	19	113	2	415	8	65	1	56
Arall	841	19	167	4	332	8	65	1	61
Cyfanswm	7,103	29	874	4	3,232	13	324	1	55

4.2.8. Tlodi yn ôl deiliadaeth

Mae lefel debyg o dlodi tanwydd yn digwydd ym mhob deiliadaeth cyn ymyrraeth (Tabl 4.20). Yn dilyn grant HEES, roedd cyfran y cartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd yn y sector rhentu preifat, yn sylweddol uwch na rhai deiliadaethau eraill. Ar ôl astudio'r grŵp hwn ymhellach, gwelwyd bod dwy ran o dair o bensiynwr mewn cartrefi rhentu preifat, yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth.

Tabl 4.20 Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl deiliadaeth

Categori	Cyn ymyrraeth				Ôl ymyrraeth				Gostyngiad Cyfanswm
	Cyfanswm		Enbyd/ Eithafol		Cyfanswm		Enbyd/ Eithafol		
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	
Eiddo'r Cyngor	1,006	31	140	3	481	15	27	1	52
Cymd. Dai	456	30	65	4	179	12	15	1	61
Eiddo Preifat	5,381	29	697	4	2,425	13	253	1	55
Rhentu Preifat	243	34	32	5	147	20	28	2	40
Cyfanswm	7,103	29	874	4	3,232	13	324	1	55

4.2.9. Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl math y tanwydd, cyn ymyrraeth

Mae Tabl 4.21 yn dangos newidiadau i danwydd gwresogi o ganlyniad i ymyrraeth HEES. Mae pob rhes yn dangos y tanwydd gwresogi cyn ymyrraeth a chanran y cartrefi gyda'r tanwydd hwnnw a gafodd ei newid gan HEES. Er enghraifft, newidiwyd 27% o gartrefi a oedd yn defnyddio tanwydd di-fwg i nwy trwy ymyrraeth HEES.

Tabl 4.21 Newidiadau tanwydd cyn ymyrraeth, yn ôl math y tanwydd

Tanwydd cyn HEES	Tanwydd ôl HEES							Cyfanswm cyn HEES
	Nwy	LPG	Olew	Glo	Di-fwg	Trydan union.	Tryda n allfrig	
Nwy	100							100
LPG		100						100
Olew	1		99					100
Glo	25			70			5	100
Di-fwg	27				73			100
Trydan union.	73					20	6	100
Trydan allfrig	12						88	100

Er y gall ymyrraeth HEES newid y brif system wresogi a'r tanwydd gwresogi, mae tabl 4.22 yn dangos achosion tlodi tanwydd yn ôl math y tanwydd cyn ymyrraeth. Mae'r lefel uchaf o dlodi tanwydd yn digwydd mewn cartrefi a wresogir gan LPG, tanwydd di-fwg a thrydan uniongyrchol. Roedd cyfran uchel o'r rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd a oedd yn dibynnu ar y tanwydd hwn hefyd yng nghategoriâu enbyd neu eithafol tlodi tanwydd. Yn ychwanegol, nid oedd grant HEES yn effeithiol iawn i gynorthwyo cartrefi a oedd yn dibynnu ar LPG a thanwydd di-fwg i wresogi eu cartrefi - yn dilyn ymyrraeth, roedd 46% o gartrefi a oedd yn dibynnu ar LPG a 60% o gartrefi a oedd yn dibynnu ar danwydd di-fwg yn parhau i fod yn dioddef o dlodi tanwydd. O edrych yn fwy gofalus, gwelwyd nad oedd y cartrefi hyn yn rhai anodd eu gwresogi, yn gyffredinol, ac mae'n debyg mai cost uchel y tanwydd a oedd yn achosi tlodi tanwydd. Trwy ymyrraeth grant HEES, symudwyd 78% o rai'n dioddef o dlodi tanwydd, a oedd yn gwresogi gyda thrydan uniongyrchol, allan o dlodi tanwydd trwy newid y math o danwydd a ddefnyddid i wresogi.

Tabl 4.22 Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl tanwydd gwresogi, cyn ymyrraeth

Categori	Cyn ymyrraeth				Ôl ymyrraeth				Gostyngiad Cyfanswm
	Cyfanswm		Enbyd/ Eithafol		Cyfanswm		Enbyd/ Eithafol		
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	
Nwy	3,733	23	267	2	1,906	12	209	1	49
LPG	231	58	34	8	179	46	32	8	23
Olew	261	28	0	0	125	18	0	0	52
Glo	780	27	140	2	455	12	0	0	42
Di-fwg	82	72	32	2	57	60	13	1	30
Trydan Uniongyrchol	1,821	72	456	1	398	14	56	3	78
Trydan allfrig	198	27	18	2	113	26	16	2	43
Cyfanswm	7,103	29	874	4	3,232	13	324	1	55

4.2.10. Tlodi tanwydd yn ôl system gwresogi, cyn ymyrraeth

Symudwyd pawb a oedd yn defnyddio gwresogyddion ystafell cyn ymyrraeth, allan o dlodi tanwydd (tabl 4.23).

Tabl 4.23 Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl system gwresogi, cyn ymyrraeth

Categori	Cyn ymyrraeth		Ôl ymyrraeth		Gostyngiad %
	Nifer	%	Nifer	%	
Boeleri a rheiddiaduron	3,960	23	2,234	13	43
Gwresogyddion ystafell	2,907	48	880	15	70
Stôr-wresogyddion a gwresogi tanlawr	201	28	118	16	41
Aer cynnes	32	40	0	0	100
Cyfanswm	7,103	29	3,232	13	55

4.2.11. Tlodi tanwydd yn ôl budd-dâl cymhwys

Mae'r prif fudd-daliadau a ddefnyddiwyd i fod yn gymwys ar gyfer grant HEES yn cael eu dangos yn nhabl 4.24 isod, gydag amlder tlodi tanwydd ar gyfer pob math o grant. Mae'r tabl yn dangos y budd-dâl a ddefnyddiwyd i gymhwyso ar gyfer y grant HEES, nid amlder unrhyw fath o fudd-dâl penodol ym mhoblogaeth HEES.

Cymharol fechan oedd nifer yr ymgeiswyr ar Lwfans Gweini neu Gredyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth. Yn ogystal, cyfran fechan, yn unig, o gartrefi ar gredyd treth teuluoedd sy'n gweithio a symudwyd allan o dlodi tanwydd. Trwy astudio'r grŵp hwn ymhellach, gwelwyd nad oedd unrhyw berthynas rhwng deiliadaeth neu fath o danwydd a thlodi tanwydd.

Tabl 4.24 Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl y budd-dâl a ddefnyddiwyd i gymhwyso ymyrraeth

Math	Cyn ymyrraeth		Ôl ymyrraeth		Gostyngiad %
	Nifer	%	Nifer	%	
Lwfans Gweini	582	18	241	8	59
Budd-dâl Treth Gyngor	631	39	273	17	57
Lwfans Byw i'r Anabl	1,812	26	741	11	59
Budd-dâl Tai	178	41	79	20	56
Cymhorthdal Incwm	2,119	44	888	18	58
Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio	307	16	242	13	21
Arall	146	35	80	19	45
Anhysbys	1,327	28	694	15	47
Cyfanswm	7,103	29	3,232	13	55

4.2.12. Tlodi tanwydd yn ôl statws gweithio

Gofynnodd yr holiadur i dderbynwyr HEES ddisgrifio eu statws gweithio eu hunain (er y gallai fod gan eraill a oedd yn byw yn y cartref statws gweithio arall). Mae'r lefel uchaf o dlodi tanwydd ymhlith ymgeiswyr sy'n aros i ddechrau gweithio neu'n ceisio gwaith (tabl 4.25). Mae'n uchel hefyd ymhlith myfyrwyr.

Tabl 4.25 Yn dioddef o dlodi tanwydd yn ôl statws gweithio

Categori	Cyn ymyrraeth		Ôl ymyrraeth		Gostyngiad
	Nifer	%	Nifer	%	%
Gweithio'n Llawn Amser	199	12	161	10	17
Gweithio'n Rhan Amser	518	24	213	10	60
Aros i Ddechrau Swydd	62	57	51	43	25
Ceisio Gwaith	244	60	146	36	40
Salwch Hir Dymor	1,466	32	739	16	50
Wedi Ymddeol	3,517	30	1,551	13	58
Edrych ar ôl y Cartref	752	33	304	13	59
Myfyriwr	146	47	65	21	56
Arall	32	22	0	0	100
Cyfanswm	7,103	29	3,232	13	54

4.3 Nodweddion a safbwyntiau y sawl ymatebodd i'r arolwg

4.3.1 Tlodi tanwydd yn ôl bodlonrwydd â'r cartref

Mae Tabl 4.26 yn dangos cyfran y cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd a lefel eu bodlonrwydd â'u cartref. Nid oedd y cwestiwn a ofynnwyd yn benodol am wresogi na digonolrwydd y system wresogi, ond yn hytrach, am fodlonrwydd cyffredinol y cartref. Yn ogystal, ni fwriadwyd i'r cwestiwn fod yn ôl-weithredol - mae'r ymatebion yn berthnasol i'r cartref yn dilyn ymyrraeth.

Er syndod, efallai, roedd y mwyafrif (75%) o'r rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn fodlon gyda'u cartrefi yn dilyn ymyrraeth HEES. Mae hyn yn cymharu gydag 85% o'r rhai nad oedd yn dioddef o dlodi tanwydd.

Tabl 4.26 Canran y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn ôl bodlonrwydd â'u cartref

	Yn dioddef		Ddim yn dioddef	
	Nifer	% yn dioddef	Nifer	% ddim yn dioddef
Yn fodlon iawn	1,017	31	9,327	45
Yn weddol fodlon	1,444	45	8,272	40
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	333	10	1,549	7
Ychydig yn anfodlon	300	9	1,253	6
Anfodlon iawn	136	4	493	2
Cyfanswm	3,232	100	20,892	100

4.3.2 Tlodi tanwydd yn ôl bodlonrwydd mesurau HEES

Er bod amcangyfrif o 3,232 cartref (13%) yn parhau i ddiodeff o dlodi tanwydd yn dilyn ymyrraeth HEES, dywedodd 77% o'r cartrefi hyn eu bod yn teimlo'n gynhesach yn eu cartrefi yn dilyn HEES.

Tabl 4.27 Yn diodeff o dlodi tanwydd, yn ôl cysur y cartref yn dilyn ymyrraeth

	Yn diodeff		Ddim yn diodeff	
	Nifer	% Yn diodeff	Nifer	% ddim yn diodeff
Llawer cynhesach	1,355	42	10,815	52
Ychydig yn gynhesach	1,156	35	6,398	31
Tua'r un fath	621	19	3,601	17
Yn oerach	99	3	108	1
Cyfanswm	3,232	100	20,892	100

4.3.3 Tlodi tanwydd yn ôl amgyffrediad o dlodi

Gofynnwyd i ddeiliaid cartrefi amcangyfrif yr incwm a oedd ei angen i gadw cartref megis un eu hunain allan o dlodi, ac yna nodi lle roedd incwm eu cartref mewn perthynas â'r ffigwr hwn. Mae Tabl 4.28 yn dangos sut y mae'r derbynwyr sy'n diodeff o dlodi tanwydd yn amgyffred eu lefel hwy o incwm mewn perthynas â safon dderbyniol. O'r holl rai'n diodeff o dlodi tanwydd, nid oedd 13% yn amgyffred eu cartref mewn unrhyw lefel o dlodi, ond roedd 37% yn teimlo fod eu hincwm ymhell o dan safon dderbyniol. Mae hyn yn awgrymu nad yw amgyffrediad o dlodi yn ddangosydd cryf o dlodi tanwydd, o bosibl, fel y'i diffinnir yn yr astudiaeth hon.

Tabl 4.28 Sut y mae'r rhai sy'n diodeff o dlodi tanwydd yn amgyffred eu hincwm mewn perthynas â safon dderbyniol

	Yn diodeff		Ddim yn diodeff	
	Nifer	% yn diodeff	Nifer	% ddim yn diodeff
Llawer uwch	73	2	656	3
Ychydig yn uwch	362	11	3,300	16
Tua'r un fath	563	17	4,243	20
Ychydig yn is	656	20	5,557	27
Llawer is	1,198	37	4,651	22
Ddim yn gwybod	381	12	2,480	12
Cyfanswm	3,232	100	20,892	100

4.4 Data arall a gasglwyd o'r holiadur

Mae canlyniadau'r adran hon yn gydgasgliad syml o atebion yr arolwg ac nid ydynt wedi eu pwyso yn ôl y math o gartref. Lluniwyd y tablau ar y sampl cyflawn o'r 2012 a ymatebodd, ond mewn cartref gyda dau oedolyn a dau ymateb, rhoddwyd pwysedd o 0.5 i bob ymatebydd, i roi cyfanswm o 1,680 o gartrefi.

4.4.1. Problemau gyda'r cartref ôl ymyrraeth

Y broblem fwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr oedd landeri'r to neu'r ffenestri'n gollwng (Tabl 4.29). Roedd problemau gyda drafftiau a phrinder lle hefyd yn gyffredin. Er nad oedd gan dros draean o'r ymatebwyr yr un o'r problemau a restrwyd, honnodd 9% o gartrefi fod eu gwres yn annigonol a 21% fod ganddynt problemau gyda drafftiau – sy'n bryder gan fod cael gwared o ddrafftiau yn un o fesurau HEES. Yn ogystal, roedd gan 18% problemau gyda thamprwydd ac 11% problemau gyda llwydni. NB gellid ticio mwy nag un bocs.

Tabl 4.29: Problemau gyda'ch cartref

	Nifer	Canran o bawb a ymatebodd
Diffyg lle	311	19
Rhy dywyll	108	6
Gwres annigonol	162	10
Drafftiau	368	22
Y to, landeri neu ffenestri'n gollwng	371	22
Tamprwydd	314	19
Pydredd	199	12
Llwydni	192	11
Dim lle i eistedd allan	57	3
Arall	91	5
Dim o'r problemau hyn	573	34

4.4.2. Lefelau o gysur

Nododd bron i draean o gartrefi nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu cadw eu cartref yn ddigon cynnes yn y gaeaf (Tabl 4.30).

Tabl 4.30: Ydych chi'n gallu cadw eich cartref yn ddigon cynnes yn y gaeaf?

	Nifer	Canran
Ydw	1,171	30
Nac ydw	488	69
Ar goll	21	1
Cyfanswm	1,680	100

Ar y cyfan, yr ystafelloedd ymolchi, y toiledau a'r ystafelloedd cawod oedd y manau o gwmpas y cartref nad oedd yn ddigon cynnes (gellid ticio mwy nag un man), yn cael eu dilyn gan geginau a chynteddau a landinau (Tabl 4.31). Roedd bron i 5% o gartrefi yn methu â chadw unrhyw un o'u hystafelloedd yn ddigon cynnes.

Tabl 4.31: Mannau o gwmpas y cartref nad ydynt yn ddigon cynnes

	Nifer	Canran o bawb a ymatebodd
Ystafelloedd gwely'r plant	104	6
Ystafelloedd gwely'r oedolion	168	10
Y lolfa	169	10
Cegin	201	12
Ystafell ymolchi	211	12
Y Cyntedd	172	10
Ystafelloedd eraill	49	3
Pob ystafell	78	5

Y rheswm mwyaf cyffredin dros fethu â chadw'r ystafelloedd yn ddigon cynnes oedd dim digon o reiddiaduron, yna insiwleiddio gwael neu ddrafftiau (gallai cartrefi dicio mwy nag un boc), (Tabl 4.32).

Tabl 4.32: Y rhesymau pam na ellir cadw'r cartref yn ddigon cynnes

	Nifer	Canran o bawb a ymatebodd
Mae'r gwres yn aneffeithiol neu wedi torri	146	9
Dim digon o reiddiaduron	225	13
Insiwleiddio gwael/drafftiau	201	12
Rhy ddrud	144	9
Rheswm arall	68	4

Nododd dros 80% o'r cartrefi a atebodd y cwestiwn hwn (atebodd 1,598 y cwestiwn) fod eu cartref yn teimlo'n llawer neu'n ychydig cynhesach ers iddynt dderbyn grant HEES (Tabl 4.33).

Tabl 4.33: Effaith grant HEES ar gynhesrwydd

	Nifer	Canran o bawb a ymatebodd
Llawer cynhesach	806	51
Ychydig cynhesach	498	31
Tua'r un fath	279	17
Oerach	15	1
Cyfanswm	1,598	100

Teimlai 46% o gartrefi a atebodd y cwestiwn hwn (atebodd 1,579 y cwestiwn) nad oedd eu biliau tanwydd wedi newid ers derbyn grant HEES, tra yr oedd 40% yn teimlo bod eu biliau wedi lleihau (Tabl 4.34).

Tabl 4.34: Effaith grantiau HEES ar filiau tanwydd

	Nifer	Canran o bawb a ymatebodd
Llawer is	142	9
Ychydig is	465	30
Tua'r un fath	732	46
Ychydig mwy	169	11
Llawer mwy	71	5
Cyfanswm	1579	100

4.4.3. Amgyffrediad o dlodi

Amcangyfrifodd 1,581 o gartrefi yr incwm wythnosol a oedd ei angen i gadw cartref megis eu hun hwy allan o dlodi. Y cyfartaledd cyffredinol oedd £213. Mae Tabl 4.35 yn dangos dadansoddiad yn ôl y math o gartref.

Tabl 4.35: Yr incwm wythnosol sydd ei angen i gadw cartref allan o dlodi

Math o gartref	£
1 Oedolyn	180
1 Oedolyn 1 Plentyn	225
1 Oedolyn 2+	242
Plentyn	
1 Pensiynwr	162
2 Oedolyn 1 Plentyn	256
2 Oedolyn 2+	324
Plentyn	
2 Bensiynwr	214
Arall	245

Gwnaeth 1,456 o gartrefi sylw ar eu hincwm mewn perthynas â'r lefel ofynnol uchod. Teimlai 24% o'r rhai a ymatebodd fod eu hincwm ychydig yn is na'r lefel a oedd ei angen i gadw'r cartref allan o dlodi, teimlai 22% ei fod lawer is a theimlai 21% ei fod o gwmpas y lefel a oedd ei hangen (Tabl 4.36).

Tabl 4.36: Incwm cartrefi o'i gymharu â'r incwm sydd ei angen i gadw cartref allan o dlodi

	Nifer	Canran
Llawer uwch	42	3
Ychydig uwch	220	15
Tua'r un fath	302	21
Ychydig is	350	24
Llawer is	339	23
Ddim yn gwybod	203	14
Cyfanswm	1,456	100

Nid oedd hanner y cartrefi wedi defnyddio llai o unrhyw wasanaeth (Tabl 4.37) oherwydd eu pryder am gost y gwasanaeth (gallai cartrefi dicio mwy nag un gwasanaeth). Y gwasanaeth yr oedd cartrefi yn defnyddio llai ohono, gan amlaf, oedd y ffôn.

Tabl 4.37: Defnyddio llai nag sy'n angenrheidiol

	Nifer	Canran o bawb a ymatebodd
Dim o'r rhain	1,069	64
Trydan	316	19
Nwy	317	19
Ffôn	354	21
Dŵr	126	8

4.4.4. Iechyd

Gor-ddadansoddwyd materion yn ymwneud â iechyd o holiaduron unigol (2,012) yn hytrach nag yn ôl cartrefi (gweler adran 4.5). Roedd 62% o'r rhai a ymatebodd yn cael rhywfaint o drafferth cerdded o gwmpas, tra nad oedd gan 38% unrhyw broblem (Tabl 4.38).

Tabl 4.38: Problemau gyda symudedd

	Nifer	Canran
Dim problemau	718	38
Rhai problemau	1,139	61
Yn gaeth i'r gwely	12	1
Nifer o ymatebwyr	1,869	100
Dim ymateb	143	
Cyfanswm	2,012	

† canran yr ymatebwyr

Nid oedd gan 65% o gartrefi unrhyw broblemau gyda hunanofal, tra bo 35% yn dioddef rhai problemau wrth ymolchi neu wisgo eu hunain (Tabl 4.39).

Tabl 4.39: Problemau gyda hunanofal

	Nifer	Canran
Dim problemau	1,151	65
Rhai problemau	589	33
Anallu i ymolchi neu wisgo	34	2
Nifer o ymatebwyr	1,774	100
Dim ymateb	238	
Cyfanswm	2,012	

† Canran o ymatebwyr

Roedd gan dros hanner o'r rhai a ymatebodd rywffaint o broblemau o safbwynt dilyn eu gweithgareddau arferol, tra nad oedd 37% yn cael unrhyw broblem wrth ddilyn eu tasgau arferol (Tabl 4.40).

Tabl 4.40: Problemau o safbwynt dilyn eu gweithgareddau arferol

	Nifer	Canran
Dim problemau	698	37
Rhai problemau	910	49
Ddim yn gallu perfformio gweithgareddau arferol	259	14
Nifer a ymatebodd	1,867	100
Dim ymateb	145	
Cyfanswm	2,012	

† Canran yr ymatebwyr

Dioddefodd dros hanner yr ymatebwyr boen cymedrol neu anesmwythyd, dioddefodd 22% boen eithafol neu anesmwythyd ac nid oedd gan 24% unrhyw boen nag anesmwythyd (Tabl 4.41).

Tabl 4.41: Problemau gyda phoen ac anesmwythyd

	Nifer	Canran
Dim problemau	459	24
Rhai problemau	999	53
Poen eithafol	414	22
Nifer yr ymatebwyr	1,872	100
Dim ymateb	140	
Cyfanswm	2,012	

† Canran yr ymatebwyr

Nid oedd hanner yr ymatebwyr yn bryderus neu'n isel eu hysbryd, ond teimlai 42% yn gymharol bryderus ac isel eu hysbryd (Tabl 4.42).

Tabl 4.42: Problemau gyda phryder ac iselder

	Nifer	Canran
Dim problemau	889	50
Rhai problemau	748	42
Yn eithafol bryderus neu isel eu hysbryd	135	8
Nifer yr ymatebwyr	1,869	100
Dim ymateb	143	
Cyfanswm	2,012	

† Canran yr ymatebwyr

Nododd 46% o'r ymatebwyr bod cyflwr eu hiechyd yn is neu'n gyfartal â 50, nododd 16% ei fod yn uwch na 80 (Tabl 4.43).

Tabl 4.43: Gwerthusiad o gyflwr iechyd (allan o 100)

	Nifer	Canran
1 i 10	29	2
11 i 20	74	4
21 i 30	178	10
31 i 40	218	12
41 i 50	311	17
51 i 60	245	14
61 i 70	213	12
71 i 80	234	13
81 i 90	189	11
91 i 100	96	6
Nifer yr ymatebwyr	1,787	100
Dim ymateb	225	
Cyfanswm	2,012	

† Canran yr ymatebwyr

Mae Tabl 4.44 yn dangos cyfartaledd sgôr iechyd yn ôl tlodi tanwydd yn gyffredinol ac i rai ar lwfans anabledd. Nid yw'n ymddangos bod perthynas rhwng tlodi tanwydd ac amgyffrediad o iechyd, ar y cyfan, er bod rhywfaint o dystiolaeth bod ymgeiswyr tlodi tanwydd sy'n defnyddio lwfans anabledd er mwyn bod yn gymwys ar gyfer HEES, yn nodi bod eu hiechyd yn is na iechyd y rhai nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd o fewn y grŵp budd-dâl hwnnw.

Tabl 4.44 Cyfartaledd sgôr iechyd

Categori	Ar y cyfan	Ar lwfans anabledd
Ddim yn dioddef o dlodi tanwydd	57	48
Yn dioddef o dlodi tanwydd	57	45

Teimlai bron i 60% bod cyflwr eu hiechyd dros y 12 mis blaenorol wedi bod yn dda neu'n eithaf da ond teimlai 41% nad oedd wedi bod yn dda (Tabl 4.45).

Tabl 4.45: Cyflwr iechyd yn y 12 mis blaenorol

	Nifer	Canran
Da	297	15
Gweddol dda	849	44
Gwael	800	41
Nifer o ymatebwyr	1,946	100
Dim ymateb	66	
Cyfanswm	2,012	

† Canran yr ymatebwyr

Er mai dim ond 28% o'r ymatebwyr a ddefnyddiodd fudd-dâl anabledd fel y budd-dâl cymhwys ar gyfer grant HEES, roedd 69% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn dioddef o salwch hir dymor neu broblem iechyd neu anabledd a oedd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dyddiol neu'r gwaith y gallant ei wneud (Tabl 4.46).

Tabl 4.46: A oes gennych unrhyw salwch hir-dymor, broblem iechyd neu anabledd

	Nifer	Canran
Oes	1,306	68
Nac oes	551	29
Ddim yn gwybod	70	4
Nifer yr ymatebwyr	1,927	100
Dim ymateb	85	
Cyfanswm	2,012	

† Canran yr ymatebwyr

Mewn 56% o achosion, nid oedd unrhyw un arall yn y cartref yn dioddef o broblem o'r fath, tra mewn 37% o achosion, roedd oedolyn arall yn dioddef o salwch hir dymor, broblem iechyd neu anabledd (Tabl 4.47).

Tabl 4.47: A oes unrhyw un arall yn eich cartref yn dioddef o salwch hir-dymor, broblem iechyd neu anabledd

	Nifer	Canran†
Oes, oedolyn arall	639	37
Oes, plentyn	83	5
Oes, oedolyn a phlentyn	15	1
Nac oes	961	56
Ddim yn gwybod	29	2
Nifer yr ymatebwyr	1,727	100
Dim ymateb	285	
Cyfanswm	2,012	

† Canran yr ymatebwyr

4.4.5. Amgyffrediad o dlodi ac iechyd - crynodeb

Teimlai 47% o gartrefi sy'n derbyn grant HEES fod eu hincwm yn is na safon dderbyniol a honnai 36% eu bod wedi defnyddio llai ar o leiaf un o'r prif wasanaethau cyfleustodau am nad oeddynt yn gallu fforddio talu'r biliau. I'r gwrthwyneb, nid yw dros 50% o gartrefi sy'n derbyn grant HEES yn teimlo eu bod mewn unrhyw lefel o dlodi.

Dywedodd 68% o ymatebwyr eu bod yn dioddef o salwch hir dymor er mai dim ond 50% o ymatebwyr a nododd bod lefel eu hiechyd yn is na 50 ar raddfa o 1 i 100.

Ar sail amgyffrediad sampl HEES a ddychwelodd eu holiaduron, ymddengys bod HEES wedi cael mwy o lwyddiant gyda thargedu 'pobl sâl' yn hytrach na'r tlawd neu'r rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd.

5. Dyfodol HEES

5.1 Cyflwyniad

Mae'r Cynulliad yn ystyried HEES yn ei brif fodd o gwrdd â'i amcanion Strategaeth Tlodi Tanwydd. Yr amcan cyntaf a nodir yn y strategaeth yw dileu tlodi tanwydd ymysg cartrefi **bregus, incwm isel**, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib erbyn 2010. Bydd tlodi tanwydd ymysg **cartrefi nad ydynt yn fregus** yn cael ei ddileu mewn **tai cymdeithasol** erbyn 2012. Bydd tlodi tanwydd mewn **cartrefi eraill** yn cael ei ddileu erbyn 2018. Y porth presennol ar gyfer derbyn grant HEES, a sefydlwyd yn y 1990au, yw derbyn budd-daliadau pasport, y'u cymerir fel procsi ar gyfer tlodi tanwydd mewn cartrefi bregus incwm isel.

5.1.1 Ar hyn o bryd nid yw HEES yn cyrraedd nac yn targedu pobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd

Awgryma'r astudiaeth hon mai dim ond tua 30% o'r rheiny sy'n derbyn HEES ar hyn o bryd sy'n dioddef o dlodi tanwydd mewn gwirionedd, ac mai ychydig yn unig o'r rhain sy'n dioddef o dlodi tanwydd enbyd neu eithafol. Mae tua 70% o arian HEES felly yn debygol o fod yn mynd tuag at gynorthwyo cartrefi bregus incwm isel NAD ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd. Nid yw hyn yn syndod oherwydd mae tlodi tanwydd yn ganlyniad cyfuniad o incwm isel a biliau tanwydd uchel. Nid yw cynllun HEES yn targedu'i hun ar hyn o bryd at y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd gan nas ystyrir effeithlonrwydd ynni'r eiddo ac nas ystyrir yn llawn incwm y cartref yn y broses o bennu pwy sy'n gymwys ar gyfer grant. Dim ond tua hanner y cartrefi Y MAENT yn dioddef o dlodi tanwydd y mae'r cynllun yn llwyddo i'w tynnu allan o dlodi tanwydd.

5.1.2 Sut mae HEES yng Nghymru yn cymharu â Warm Front yn Lloegr?

Nid yw'r broblem o dargedu'r rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn unigryw i HEES; mae rhwng 40% a 70% o dderbynwyr Warm Front nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd (NAO, 2003; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2004). Hefyd gallai 30% i 40% o gartrefi mewn grwpiau bregus fod yn dioddef o dlodi tanwydd ond heb fod yn gymwys ar gyfer Warm Front. Mae enghreifftiau o'r fath gartrefi yn cynnwys y rheiny gydag incwm ychydig yn uwch na'r trothwy i fod yn gymwys ar gyfer budd-daliadau a'r rheiny sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau ond heb eu bod yn eu hawlio.

Y prif wahaniaeth rhwng HEES a Warm Front yw bod ystod ehangach o gartrefi yn gymwys ar gyfer HEES Plws nac ar gyfer Warm Front Plus. Fodd bynnag, mae'r ddau gynllun yn dioddef o'r un problemau sylfaenol, yn enwedig sut i wella eu targedu er mwyn cyrraedd cyfran uwch o gartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd.

5.2 Sut gall HEES gyrraedd mwy o bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd?

Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol er mwyn i HEES allu targedu tlodi tanwydd yn fwy penodol:

- Sut gall HEES wneud yn well wrth dynnu'r derbynwyr presennol allan o dlodi tanwydd?
- Sut y gellir lleihau'r canran presennol o dderbynwyr nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd?
- Sut y gellir cynorthwyo'r cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd y byddent yn gymwys ar gyfer HEES petaent wedi'u cofrestru ar gyfer y budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w derbyn?
- Sut y gellir cynorthwyo'r rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd sy'n byw mewn cartrefi bregus nad ydynt yn gymwys o ychydig ar gyfer budd-daliadau ond sy'n dioddef o dlodi tanwydd oherwydd eu bod yn byw mewn cartrefi ynni aneffeithlon?
- Sut y gellir cynorthwyo cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd nad ydynt yn y categori bregus incwm isel?
- Sut y gellir cynorthwyo'r rheiny sydd eisoes yn byw mewn cartrefi sy'n rhesymol ynni effeithlon ond eu bod yn dal i ddioddef o dlodi tanwydd? Gall tlodi tanwydd ddigwydd oherwydd nad yw'r deiliaid yn gwybod sut i ddefnyddio eu gwres, eu systemau dŵr twym a'u hoffer yn effeithlon neu nad ydynt ar y raddfa danwydd neu'r dulliau talu rhataf.

Edrychir ar y cwestiynau hyn yn nhabl 5.1 isod.

Tabl 5.1 Sut y gall HEES gyrraedd mwy o bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd?

	Nodweddion y Cartref	Gweithredoedd Posib	Sylwadau
1	Cymwys ac yn dal i ddioddef o dlodi tanwydd yn dilyn mesurau HEES.	Cynyddu trothwy'r grant a'r rhestr o fesurau sydd ar gael. Darparu mesurau digonol er mwyn eu tynnu allan o dlodi tanwydd.	Ni fydd mesurau ynni yn unig yn ddigonol mewn rhai achosion, yn enwedig mewn Cartrefi Anodd eu Trin. Mewn rhai achosion byddai'n haws darparu incwm ychwanegol. Byddai angen asesu'r graddau o dlodi tanwydd a darparu mesurau digonol i dynnu'r cartref allan o dlodi tanwydd. Byddai gwella ar darged SAP yn unig yn annigonol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu tynnu allan o dlodi tanwydd.
2	Cymwys ond heb fod yn dioddef o dlodi tanwydd.	Gosod targedau ar gyfer rheolwyr y cynllun yn seiliedig ar y gwelliant SAP cyfartalog yn ogystal â nifer y cartrefi a gyrhaeddir.	Byddai hyn yn ffocysu sylw ar gartrefi gyda SAP isel cyn mesurau HEES ac yn osgoi gwaith elfennol yn unig. Petai data bandiau incwm yn cael ei gasglu yn ystod yr arolwg, gellir seilio'r targed ar fesur o dlodi tanwydd yn hytrach nac ar y SAP.

		Gosod lefel SAP lle na fyddai cartrefi yn gymwys am grant os yn uwch na hi.	Byddai hyn yn lleihau'r nifer o gartrefi cymwys ond byddai angen arolwg SAP o hyd ar bob cartref. Gallai rhai cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd ddod yn anghymwys, gan nad yw SAP yn ddangosydd da o dlodi tanwydd. Byddai angen sicrhau ansawdd y SAP.
		Tynhau'r meini prawf cymhwyster er mwyn eithrio'r rheiny ar incwm uwch.	Byddai tynhau'r meini prawf cymhwyster yn golygu elfen o brawf modd. Fel arall, gellid gollwng categorïau cymhwyster penodol – e.e. Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio a Lwfans Gweini.
		Ychwanegu maen prawf yn seiliedig ar lefel amcangyfrifedig y tlodi tanwydd.	Byddai asesu lefel y tlodi tanwydd yn golygu arolwg SAP AC asesiad incwm. Byddai mesurau sylweddol ar gael i'r rheiny y dangosir eu bod mewn tlodi tanwydd yn unig. Byddai'n rhaid sicrhau ansawdd yr asesiad tlodi tanwydd.
3	Byddent yn gymwys os yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w derbyn.	Hybu Gwiriadau Iechyd Budd-daliadau a gwneud cais am HEES drwy rwydweithiau cymunedol.	
4	Bregus ond heb fod yn gymwys o ychydig am fudd-daliadau ac yn dioddef o dlodi tanwydd oherwydd bod costau tanwydd yn uchel.	Asesu lefel y tlodi tanwydd.	Mae'n anodd gweld sut y gellir cyrraedd y cartrefi hyn heb asesiad tlodi tanwydd. Mae angen eu cyrraedd mewn Tai Cymdeithasol erbyn 2012 a thai eraill erbyn 2018. Gellid, fel man cychwyn, sefydlu cyllideb ddisgresiynol ar gyfer achosion eithafol.
5	Heb fod mewn categorïau bregus ond yn dioddef o dlodi tanwydd.	Asesu lefel y tlodi tanwydd.	Mae'n anodd gweld sut y gellir cyrraedd y cartrefi hyn heb asesiad tlodi tanwydd. Mae angen eu cyrraedd mewn Tai Cymdeithasol erbyn 2012 a thai eraill erbyn 2018. Gellid, fel man cychwyn, sefydlu cyllideb ddisgresiynol ar gyfer achosion eithafol.

6	Dioddef o dlodi tanwydd mewn cartrefi ynni effeithlon.	Cyngor Ynni; Cyngor ar newid cyflenwyr a dulliau talu ar gyfer tanwydd; ategiadau incwm.	Gallai'r cartrefi hyn gynnwys y rheiny sydd eisoes wedi derbyn grant HEES, yn ogystal â'r rheiny nas ystyrir hwy yn gymwys ar hyn o bryd. Gellid darparu cyngor helaethach yn ystod yr arolwg ac ar ôl i'r mesurau gael eu gosod.
---	--	--	---

Mae'r tabl yn dangos sut y gellir defnyddio asesiad tlodi tanwydd ar gyfer cwrdd ag (a) y nod tymor byr o leihau yn sylweddol nifer y derbynwyr HEES presennol nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd a (b) y nod tymor hwy o gyrraedd y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel "heb fod yn fregus incwm isel". Mewn llawer o achosion, yr unig opsiwn yr ymddengys sydd ar gael yw'r opsiwn o asesu'r lefel o dlodi tanwydd mewn cartref. Gallai ymagwedd yn seiliedig ar SAP fod yn fan cychwyn ond ymddengys yn annhebygol o wneud gwahaniaeth sylweddol.

Yn yr adrannau nesaf edrychwn yn fanylach ar y materion hyn ac ar y gweithredoedd posib y gellid eu rhoi ar waith.

5.2.1 Tynhau'r ffordd y mae'r cynllun HEES yn gweithredu Targedau, Monitro ac Adrodd

Mynegir targedau ar gyfer y cynllun ar hyn o bryd yn nhermau nifer y cartrefi sy'n cael eu cyrraedd. Fodd bynnag adroddir data ar y gwelliant SAP cyfartalog ac ar y cynnydd dilynol mewn SAP cyfartalog yn flynyddol. Byddai'n gymharol hawdd gosod targedau ar gyfer y gwelliant SAP cyfartalog ac i fonitro cynnydd, ar, gwedder, sail chwarterol. Ychydig o waith ychwanegol, os o gwbl, y golyga hyn ar gyfer rheolwyr y cynllun ond byddai'n ffocysu sylw ar helaethder y gwelliant a gyflawnir. Mae'n debygol er enghraifft o leihau swm y gwaith elfennol ac annog blaenoriaethu eiddo sy'n debygol o gael SAP isel cychwynol.

Byddai hefyd yn werth edrych ar yr opsiwn o gasglu data bandiau incwm gan ddeiliaid yn ystod yr arolwg. Gellid cyfuno'r wybodaeth hon yn ddiweddarach gydag amcangyfrifon o gostau rhedeg gan y data SAP i roi syniad bras am y graddau o dlodi tanwydd yn y cartref. Yna gellid adrodd y data hwn ar sail chwarterol i roi adborth ar lwyddiant o ran lleihau niferoedd y cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd sy'n derbyn y grant HEES ac ar y graddau y maent wedi'u tynnu allan o dlodi tanwydd. Mae National Energy Services wedi bod yn casglu data bandiau incwm fel mater o drefn gan fwyafrif y deiliaid yn Rhanbarth y Dwyrain o'r cynllun Warm Front yn ystod y 18 mis diwethaf heb unrhyw broblemau arwyddocaol.

Dylai rheolwyr y cynllun hefyd newid i ddefnyddio SAP 2001 yn hytrach na SAP 98, a ddefnyddir ar hyn o bryd, gan fod yn ymwybodol nad yw data o'r ddwy ymagwedd yn gymaradwy. Mae hyn oherwydd i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r sgôr SAP newid gyda SAP 2001 i wneud y SAP yn fwy annibynnol ar arwynebedd y llawr. Yr effaith yw bod SAP cyfartalog stoc benodol o dai yn gallu newid wrth symud o SAP 98 i

SAP 2001 o unrhyw beth rhwng 0 a 10 o bwyntiau SAP, yn dibynnu ar nodweddion y stoc.

Ceir sgôp hefyd ar gyfer cofnodi data yn fwy gofalus gan arolygwyr rhag ofn y bydd prosiectau yn y dyfodol megis hwn yn dymuno defnyddio'r data. Mae'r wybodaeth benodol y dylid canolbwyntio arni yn cynnwys budd-dâl cymhwyso, math o gartref ac arwynebedd llawr yr eiddo. Byddai gwerth hefyd mewn adolygu methodoleg yr arolwg a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo'r SAP gan bod hyn ar hyn o bryd wedi'i seilio ar SAP data a leihawyd nad yw'n safonol, a dylid egluro'r lefel o hyfforddiant a roddir i arolygwyr. Nid yw'n debygol y bydd y gweithdrefnau presennol ar gyfer cyfrifo SAP yn ddigonol ar gyfer gweithdrefn lle defnyddir y SAP fel un o'r meini prawf cymhwyster.

Cael mwy o effaith ar dlodi tanwydd yn y cartrefi a drinnir

Ni thynnwyd bron hanner y cartrefi oedd mewn tlodi tanwydd cyn ymyrraeth (46%) allan o dlodi tanwydd gan y mesurau HEES a gymhwyswyd. Petai mesurau pellach yn cael eu cymhwyso i'r eiddo hyn, a fyddai hynny'n cael effaith sylweddol ar ganran y cartrefi sy'n dal i fod mewn tlodi tanwydd ar ôl HEES? Mae'r data o'r astudiaeth hon yn dangos ni fydd mesurau ynni yn unig yn ddigonol ac os yw tlodi tanwydd i gael ei ddileu yna mae'n rhaid darganfod ffordd o ategi incwm cartrefi, er nad oes gan y Cynulliad y pŵer i wneud hyn ar hyn o bryd. Petai'r SAP ym mhob eiddo wedi cael ei godi i 65, byddai'r gyfran oedd yn dal i ddiodeff o dlodi tanwydd wedi ei gostwng o 46% i 26%. Petai'r SAP yn cael ei godi i 70, byddai'r canran yn gostwng i 24%. Mae'r canran yn gostwng i 15% ar SAP 80 ac i 3% ar SAP 100.

Gwella targedu'r rheiny sy'n debygol o fod yn dioddef o dlodi tanwydd

Efallai y gellid gwneud mwy o ddefnydd o rwydweithiau cymunedol, Meddygon Teulu, Nyrsys Ardal a sefydliadau fel Age Concern, er mwyn dod i hyd i gartrefi gyda symptomau o dlodi tanwydd. Unwaith y nodir y fath gartrefi, byddai'n ddefnyddiol cael system cam cyflym er mwyn trin y cartrefi hyn. Mae'r fath ymagwedd, fodd bynnag, yn debygol o arwain at nodi cartrefi nad ydynt yn gymwys ar gyfer HEES. Yn y fath achosion gellid eu cyfeirio at asiantaeth sy'n cynnig gwiriadau Iechyd Budd-daliadau gyda'r posibilrwydd y byddent felly'n dod yn gymwys ar gyfer HEES. Yn ogystal, fel yr awgrymir yn nes ymlaen, gellid cael cronfa ddisgresiynol ar gael ar gyfer y fath gartrefi.

Cyngor Ynni

Gellid darparu cyngor manylach yn ystod yr arolwg ac ar ôl gosod y mesurau. Gall tlodi tanwydd ddigwydd oherwydd nad yw'r deiliaid yn gwybod sut i ddefnyddio eu gwres, eu systemau dŵr twym a'u hoffer yn effeithlon neu nad ydynt ar y raddfa danwydd neu'r dulliau talu rhataf. Dylid rhoi cyngor gan gynghorwyr ynni y maent yn perthyn i sefydliad sydd wedi ymrwmo i'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyngor Effeithlonrwydd Ynni yn unig, gan y byddai hyn yn codi hyder yn y cynllun ymysg y rheiny y gallant helpu drwy gyfeirio cleientiaid.

5.2.2 Cymhwyster ar gyfer Grant HEES

Mae'r meini prawf cymhwyster presennol ar gyfer HEES yn anelu at gyrraedd cartrefi bregus incwm isel yn unig. Fel y gwelwch yn ein sampl, dim ond tua 30% o'r cartrefi hyn sy'n dioddef o dlodi tanwydd. A ellid cymhwyso meini prawf cymhwyster ychwanegol er mwyn lleihau'r nifer o gartrefi nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd a gynorthwyr? Os felly, byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn y nifer o gartrefi a drinnir drwy HEES. A ellid ehangu'r meini prawf cymhwyster hefyd er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd nad ydynt yn syrthio i'r categori bregus?

Eithrio'r rheiny ar incwm uwch

Mae'r data o'r arolwg hwn yn awgrymu bod cartrefi lle eu budd-dâl cymhwyso HEES yw Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio a Lwfans Gweini yn llawer llai tebygol o fod yn dioddef o dlodi tanwydd. O'r cartrefi hyn dim ond 18% oedd yn dioddef o dlodi tanwydd o'u cymharu â 40% neu fwy ar gyfer cartrefi oedd yn gymwys oherwydd Budd-dâl Tai, Cymhorthal Incwm neu Dreth Gyngor a chyfartaledd cyffredinol o 29%. Mae nifer y teuluoedd sy'n gymwys drwy Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio a Lwfans Gweini hefyd yn sylweddol, sef 21% o'r holl gartrefi sy'n ei dderbyn. Petai'r rhain yn cael eu pennu yn rhesymau annigonol ar gyfer grant HEES, byddai'r niferoedd mewn tlodi tanwydd y gellid eu cyrraedd yn sicr o gynyddu.

Opsiwn arall yw gosod trothwy incwm ar gyfer y categorïau hyn. O ystyried canlyniadau'r arolwg hwn, trothwy incwm posib fyddai £200 yr wythnos. Roedd gan naw deg dau y cant o'r rheiny oedd yn dioddef o dlodi tanwydd incwm o lai na £200 yr wythnos.

Ychwanegu maen prawf 'lefel SAP isafswm

Mae cysylltiad rhwng lefel SAP eiddo a'r digwyddiadau o dlodi tanwydd. Mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd bod costau rhedeg tanwydd eiddo yn gostwng wrth i'r SAP gynyddu. Un posibilrwydd yw gosod lefel SAP lle na fydd cartref yn gymwys i dderbyn grant os yn uwch na hi. Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith petai'r maen prawf hwn wedi bod yn gweithredu yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan yr astudiaeth hon. Awgrymwyd trothwy SAP o 65 mewn trafodaethau ynghylch dyfodol Warm Front. Petai hyn wedi cael ei weithredu ar gyfer y cartrefi dan sylw yn yr astudiaeth hon, byddai canran y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd a gyrhaeddwyd gan HEES wedi codi o 29% i 30% yn unig. Er mwyn i hyn wneud gwahaniaeth sylweddol byddai angen trothwy SAP is. Petai trothwy o SAP 50 yn cael ei osod, byddai'r caran oedd yn dioddef o dlodi tanwydd yn codi o 29% i 37% (o'r tabl isod, cyfanswm y boblogaeth HEES fyddai 24,124 minws 7,882 a'r cyfanswm oedd yn dioddef o dlodi tanwydd fyddai 7,103 minws 1,020). Byddai'r fath newid yn golygu bod angen SAP gyda sicrwydd ansawdd, nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu cynhyrchu. Mae'r SAP hefyd yn ddangosydd bras yn unig o dlodi tanwydd. Er enghraifft roedd 14% o'r eiddo gyda SAP o 50 neu fwy yn yr astudiaeth yn cynnwys cartrefi yr ystyriwyd eu bod yn dioddef o dlodi tanwydd. Byddai costau rhedeg fel canran o incwm yn fesur gwell.

Isafswm SAP	Cartrefi cymwys a dynnwyd allan		Cartrefi a dynnwyd allan y byddent yn dioddef o dlodi tanwydd	
	Nifer	Canran yr ymgeiswyr	Nifer	Canran sy'n dioddef o dlodi tanwydd
50	7,882	33	1,020	14
55	4,505	19	451	6
60	2,286	10	182	3
65	742	3	23	0

Dylid nodi bod y methodolegau presennol a ddefnyddir i gyfrifo'r SAP yn seiliedig ar SAP set ddata a leihawyd nad yw'n safonol. Os bydd y SAP yn cael ei adeiladu i mewn fel maen prawf cymhwyster, yna byddai angen gweithdrefnau trylwyr ar gyfer cyfrifo'r SAP, yn seiliedig ar fethodoleg safonol a fframwaith sicrhau ansawdd.

Hefyd nid yw'r SAP yn ddangosydd da o dlodi tanwydd oherwydd:

- Mae'n annibynnol ar faint yr eiddo, sy'n ffactor allweddol wrth bennu tlodi tanwydd.
- Nid yw'n dweud dim am nodweddion y deiliad, e.e. lefel incwm, manylion deiliadaeth.

Ychwanegu maen prawf 'costau rhedeg fel canran o incwm'

Byddai'n well ymagwedd defnyddio data'r arolwg SAP i amcangyfrif costau rhedeg tanwydd. Byddai cyfuno costau rhedeg gydag incwm y cartref yn cynhyrchu 'costau rhedeg fel canran o incwm', sy'n fwy cyson ag amcanion yr astudiaeth hon. Gallai data incwm

- Gael ei gymryd o lefelau budd-daliadau
- Ei gasglu'n uniongyrchol o'r deiliad yn ystod y broses ymgeisio
- Ei gasglu o'r deiliad yn ystod yr arolwg SAP.

Gellir nodi cartrefi nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill, e.e. Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni.

Eto byddai angen gweithdrefnau safonol a fframwaith sicrhau ansawdd, petai'r maen prawf hwn yn cael ei ddefnyddio i bennu cymhwyster.

Edrychir yn fanylach ar yr opsiwn hwn mewn adrannau dilynol.

Ehangu'r Meini Prawf Cymhwyster

Nid yw ymagwedd seiliedig ar ddefnyddio "budd-daliadau" fel porth i grant HEES o gymorth i gyrraedd y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd nad ydynt yn derbyn budd-daliadau. Byddai ychwanegu maen prawf arall yn cynyddu costau gweinyddu hefyd oherwydd byddai mwy o'r cartrefi a arolygir na fyddent yn derbyn unrhyw fesurau ac felly byddai angen newidiadau eraill er mwyn dod â chartrefi eraill i mewn i'r cynllun.

Cyllideb HEES ddisgresiynol i'r rheiny sy'n anghymwys ond yn dioddef o dlodi tanwydd

Lle ceir tystiolaeth bod cartrefi yn dioddef o dlodi tanwydd ond nad ydynt yn gymwys hyd yn oed yn dilyn Gwiriad Iechyd Budd-daliadau, a fyddai'n bosib cael cyllideb HEES ddisgresiynol i'w defnyddio i ddarparu mesurau HEES? Gallai cymhwyster fod ar sail rhagnodyn meddyg neu dystiolaeth ddogfennol arall gan weithiwr iechyd proffesiynol. Nid yw'n debygol y byddai'r ymagwedd hon, er yn ddefnyddiol, yn cyrraedd nifer sylweddol o'r rheiny sy'n anghymwys ond yn dioddef o dlodi tanwydd ond byddai'n fan cychwyn o safbwynt cyrraedd y rheiny nad ydynt yn fregus sy'n dioddef o dlodi tanwydd.

5.2.3 Cyrraedd y rheiny sy'n dioddef o dlodi tanwydd nad ydynt yn derbyn budd-daliadau

Er mwyn cyrraedd nifer sylweddol o'r cartrefi hyn, mae'n rhaid newid y meini prawf cymhwyster yn llwyr. Dylid seilio'r meini prawf ar asesiad o dlodi tanwydd, h.y. costau rhedeg fel canran o incwm, yn hytrach nag ar dderbyn budd-daliadau. Byddai hyn yn golygu disodli'r meini prawf budd-dâl pasport presennol. Er y byddai hyn yn datrys y broblem o sut i gyrraedd y cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd, mae i'r ymagwedd hon broblemau eraill:

- Byddai angen arolwg SAP a chyfweliad incwm ar bob ymgeisydd i bennu pwy sy'n gymwys. Byddai llawer o'r ymgeiswyr hyn yn anghymwys, a chan bod ymweliadau cartref yn ddud, byddai costau gweinyddu yn cynyddu mewn perthynas â'r swm gaiff ei wario ar fesurau.
- Byddai angen amcangyfrifiad o incwm y cartref, sy'n anos na phennu p'un a yw rhywun yn derbyn budd-dâl.

5.2.4 Sefydlu a dilysu incwm cartref

Mae amcangyfrifiad o incwm cartref yn hanfodol wrth asesu tlodi tanwydd. Ni nodwyd unrhyw ddangosyddion procsi effeithiol ar gyfer tlodi tanwydd, er gwaethaf sawl cynnig. Mae Arolwg Warm Zones 2002 – 2003 yn dod i'r casgliad 'Nid oes dull dibynadwy a hawdd i'w fesur ar gael i ddangos tlodi tanwydd ar lefel aelwydydd unigol. Er bod targedu ar sail gwybodaeth yn bosibl, y dull gorau o sicrhau bod tlodi tanwydd yn cael ei fesur mewn modd cost-effeithiol yw asesu incwm'. Mae tlodi tanwydd yn ganlyniad o gyfuniad o gostau rhedeg tanwydd uchel ac incwm isel a'r unig ffordd i'w nodi yw drwy fesur y ddau ffactor.

Nid yw asesu incwm mor hawdd ag amcangyfrif costau rhedeg. Mae National Energy Services wedi bod yn casglu data bandiau incwm gan ddeiliaid ers 18 mis fel mater o drefn ac maent yn bwriadu asesu lefel y tlodi tanwydd fel mater o drefn ar arolygon Warm Front yn y dyfodol. Fodd bynnag byddai angen i weithdrefnau gael eu ffurfioli llawer mwy petai lefelau incwm yn ffactor wrth bennu cymhwyster. Mae gweithdrefnau yn bodoli ar gyfer amcangyfrif a dilysu incwm fel rhan o'r broses hawlio budd-daliadau, a weinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Gellir addasu'r gweithdrefnau hyn i'w defnyddio wrth asesu incwm ar gyfer y rheiny mewn tlodi tanwydd. Byddai angen diffinio'r diffiniad o'r hyn yw incwm cartref yn glir hefyd. Mae'n bwysig nad yw'r gweithdrefnau mor gymhleth eu bod yn troi ymgeiswyr posib i ffwrdd. Byddai angen datblygu proses drylwyr ar gyfer cwyno ac apelio hefyd.

5.3 Sut y gallai'r broses asesu weithio mewn arfer mewn cynllun HEES ddiwygiedig?

Byddai Aseswr yn ymweld â'r ymgeisydd ac yn cynnal arolwg effeithlonrwydd ynni cyflym, a bwydo'r wybodaeth i mewn i becyn meddalwedd fel y Powergen Pocket Affordable Warmth Software (PAWS) fyddai'n rhedeg ar PDA neu liniadur. Mae'r feddalwedd yn amcangyfrif costau rhedeg tanwydd yr eiddo sydd eu hangen er mwyn cynnal lefel benodol o gysur. Yna mae'n cyfrifo'r bandiau incwm sy'n berthnasol i'r categorïau o dlodi tanwydd; Heb fod yn Dioddef o Dlodi Tanwydd, Cymedrol, Enbyd ac Eithafol. Yna gofynnir i'r deiliad pa un o'r bandiau incwm hyn sy'n cyfateb i'w hincwm cartref. Os yw'r feddalwedd yn nodi bod y cartel yn debygol o fod yn dioddef o dlodi tanwydd, byddai'r Aseswr yn:

- Darparu ffurflen gais i'r deiliad er mwyn nodi eu hincwm at ddibenion dilysu;
- Cynorthwyo'r deiliad i gwblhau'r ffurflen a chasglu tystiolaeth ategol, fel datganiadau banc;
- Cynnal arolwg manylach i asesu lefel y tlodi tanwydd yn fyw cywir, penderfynu pa fesurau sydd eu hangen er mwyn tynnu'r cartref allan o dlodi tanwydd a chasglu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gosod y mesurau hyn;
- Cynnal gwiriad iechyd budd-daliadau er mwyn gweld os gellir cynyddu incwm y cartref, gan y gallai mwyafu incwm fod yn haws neu'n fwy cost effeithiol na gosod mesurau penodol, yn enwedig mewn cartrefi sy'n anodd eu trin.
- Darparu cyngor ynni a bylbiau golau ynni isel.

Os oedd yn glir nad oedd y cartref yn dioddef o dlodi tanwydd, byddai'r Aseswr yn:

- Darparu manylion cynlluniau perthnasol eraill i'r deiliad (e.e. Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni) ac o bosib cwblhau ffurflen gais neu gael cymeradwyaeth ar gyfer y gwaith;
- Eu cyfeirio at asiantaethau eraill sy'n cynnig gwiriadau iechyd budd-daliadau, os yn berthnasol;
- Darparu cyngor ynni a bylbiau golau ynni isel.

Ni ddylai'r weithdrefn hon ar gyfer asesu tlodi tanwydd gymryd yn hwy na'r arolwg HEES presennol. Fodd bynnag, gallai fod angen amser ychwanegol:

- i gynorthwyo'r deiliad i gwblhau'r ffurflen dilysu incwm
- i ddiplino pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni a mesurau ariannol i dynnu'r cartref allan o dlodi tanwydd.

5.3.1 A oes modd lleihau'r nifer o ymweliadau cartref costus?

Mae'n rhaid lleiafu'r nifer o ymweliadau â chartrefi nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd er mwyn lleihau costau gweinyddu. Ar hyn o mae ymgeiswyr HEES yn cael eu gwirio yn erbyn meini prawf cymhwyster, h.y. budd-daliadau pasport, er mwyn pennu os byddant yn derbyn ymweliad cartref. Gallai fod yn bosib diffinio set o gwestiynau cyn arolwg i ymgeiswyr eu hateb, er mwyn pennu a yw ymweliad cartref yn briodol. Gallai cwestiynau gynnwys:

- Oed yr eiddo yn fras
- Ffurf adeiledig (e.e. diwedd teras, byngalo, fflat)
- Nifer yr ystafelloedd
- Prif danwydd gwresogi a'r system wresogi
- Tanwydd dŵr twym a math
- Band incwm.

Byddai'r atebion yn awgrymu a yw'r cartref yn debygol o fod yn dioddef o dlodi tanwydd. Rhoddir y canlyniadau i'r ymgeiswyr a gellid annog y rheiny nad ydynt yn debygol o fod yn dioddef o dlodi tanwydd i beidio â chael arolwg. Gellid cymhwyso system fandiog, fel y gallai ymgeiswyr y mae tebygrwydd cyfartalog eu bod yn dioddef o dlodi tanwydd dderbyn arolwg dim ond os oeddent yn gofyn am ymweliad. Fel arall, gellid:

- Anfon bylbiau ynni isel i'r ymgeisydd
- Cynnig pecyn cyngor ynni a/neu ymweliad iddynt
- Eu cyfeirio at gynlluniau eraill y llywodraeth sy'n anelu at wella effeithlonrwydd ynni yn hytrach na dileu tlodi tanwydd
- Rhoi Gwiriad Iechyd Budd-daliadau dros y ffôn.

Er gwaethaf y broses hon, mae canran yr ymweliadau cartref na fydd yn esgor ar unrhyw fesurau yn dal yn debygol o fod yn sylweddol ac felly mae angen cynyddu'r gwerth a geir o ymweliadau cartref hefyd.

5.3.2 A ellid cynyddu'r gwerth a geir o ymweliadau cartref?

Gellid cynyddu sgôp ac ansawdd y cyngor ynni a gynigir yn ystod yr ymweliad. Yn ddelfrydol dylid cynnig cyngor ynni cyn ac ar ôl gosod, yn yr un modd â gyda'r Scottish Central Heating Programme. Mae rhoi cyngor ar ôl gosod mesurau yn bwysig oherwydd:

- Mae angen ailadrodd negeseuon allweddol yn gyson er mwyn i'r cyngor "lynu"
- Mae cyngor bwysicaf yn ystod y tymor gwresogi, sy'n gallu bod yn beth amser ar ôl gosod y mesurau.

Yn wir gellid symud holl bwyslais y cynllun o drefn cymwys / anghymwys i gynllun sy'n cynorthwyo pob ymgeisydd, ond gyda graddau amrywiol o gymorth o gyngor dros y ffôn i becyn llawn o fesurau.

5.4 Casgliadau

Ar hyn o bryd targedir HEES at gartrefi bregus incwm isel, a'r unig feini prawf cymhwyster yw budd-daliadau pasport. Y prif flaenoriaethau yw (a) cynyddu nifer y cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd sy'n cael eu tynnu allan o dlodi tanwydd gan fesurau HEES a (b) lleihau nifer y cartrefi nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd sy'n derbyn mesurau HEES. Y flaenoriaeth nesaf yw darganfod ffyrdd i gyrraedd cartrefi nad ydynt yn dod i mewn i'r categori cartrefi bregus. Bydd hyn yn golygu ehangu'r meini prawf cymhwyster. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r gweithredoedd y gellid eu rhoi ar waith.

Tynnu cartrefi bregus incwm isel allan o dlodi tanwydd

- Awgryma'r astudiaeth hon nad oes yna lefel SAP lle y byddai tlodi tanwydd yn cael ei ddileu. Byddai dileu tlodi tanwydd yn golygu mesurau i ategi incwm yn ogystal â chynyddu lefelau SAP. Byddai lefel isafswm SAP o 65 yn gadael 25.4% o dderbynwyr y maent yn dioddef o dlodi tanwydd mewn tlodi tanwydd o'u cymharu â 45.5% o dan drefniadau'r cynllun presennol. Byddai'n canran yn gostwng i 15.0% ar SAP 80 ond nid yw hwn yn darged realistig o ystyried bod llawer o eiddo yn "anodd eu trin".

Lleihau'r nifer o gartrefi nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd sy'n derbyn mesurau HEES

- Gosod targedau ar gyfer rheolwyr y cynllun yn seiliedig ar welliant cyfartalog y SAP yn ogystal â nifer y cartrefi a gyrrhaeddir. Ystyried casglu data band incwm gan ddeiliaid yn ystod yr arolwg, i alluogi monitro data tlodi tanwydd yn chwarterol.
- Rhwystro mesurau i gartrefi lle mae'r sgôr SAP yn is na lefel benodol, gan bod y cartrefi hynny yn fwy tebygol o ddiodesdef o dlodi tanwydd. Os gosodir y lefel SAP ar 65, amcangyfrifir y byddai hyn yn lleihau nifer y derbynwyr cymwys o 3% yn unig. Gallai fod yn fwy effeithiol i osod targed yn seiliedig ar gostau rhedeg fel canran o incwm. Byddai'r ddau opsiwn yn golygu sefydlu gweithdrefnau sicrhau ansawdd.
- Gwneud mwy o ddefnydd o rwydweithiau cymunedol, Meddygon Teulu, Nyrsys Ardal a sefydliadau fel Age Concern, i ddarganfod cartrefi gyda symptomau o dlodi tanwydd, gyda system cam cyflym ar gyfer trin y cartrefi hyn. Byddai hyn yn dod â mwy o gartrefi sy'n diodesdef tlodi tanwydd i'r amlwg ond efallai na fyddai llawer o'r rhain yn gymwys o ystyried y meini prawf cymhwyster presennol. Ystyried felly yr opsiwn o gyllideb HEES ddisgresiynol ar gyfer achosion brys.
- Darparu cyngor ehangach i bob ymgeisydd yn cynnwys newid cyflenwyr, dulliau talu am danwydd a'r defnydd gorau o systemau gwresogi a systemau dŵr twym ac offer.

Cyrraedd cartrefi nad ydynt yn dod i mewn i'r categori cartrefi bregus

Yr unig ffordd i gyrraedd y cartrefi hyn yw drwy ehangu neu newid y meini prawf yn radical.

Gallai'r fath newidiadau gynnwys:

- Newid pwyslais y cynllun o drefn cymwys/anghymwys i gynllun sy'n cynorthwyo pob ymgeisydd ond gyda graddfeydd amrywiol o gymorth, o gyngor dros y ffôn i becyn llawn o fesurau.
- Ymestyn y broses ddethol cyn arolwg er mwyn targedu'r arolygon yn well tuag at y rheiny sy'n diodesdef o dlodi tanwydd, drwy gasglu gwybodaeth ar ddangosyddion allweddol. Yn ystod y broses ddethol, cesglir gwybodaeth ar ddangosyddion allweddol, fel:
 - Oed yr eiddo yn fras
 - Ffurf adeiledig
 - Nifer yr ystafelloedd
 - Prif danwydd gwresogi a'r system wresogi
 - Tanwydd dŵr twym a math
 - Band incwm.
 - Casglu data band incwm yn ystod yr arolwg SAP, er mwyn asesu lefel y tlodi tanwydd.

- Darparu mesurau effeithlonrwydd ynni a mesurau ariannol i gartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd er mwyn eu tynnu allan o dlodi tanwydd a chyfeirio cartrefi nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd i asiantaethau eraill.

5.5 Argymhellion

Rheolwyr y Cynllun:

- Gosod targedau iddynt yn seiliedig ar y gwelliant SAP cyfartalog yn ogystal â nifer y cartrefi a gyrhaeddir.
- Casglu data bandiau incwm gan ddeiliaid yn ystod yr arolwg, ac adrodd yn chwarterol ar niferoedd y cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd a gyrhaeddir ac i ba raddau y tynnwyd hwy allan o dlodi tanwydd. Bydd rhaid cytuno'r fethodoleg ar gyfer hyn, yn cynnwys y diffiniad o incwm cartref.
- Defnyddio SAP 2001 ar gyfer cyfrifiadau SAP cyn gynted â phosib.
- Adolygu eu methodoleg ar gyfer arolygon SAP i sefydlu a yw'r gweithdrefnau a ddefnyddir yn ddigon trylwyr i alluogi defnyddio'r cyfrifiad SAP fel maen prawf ychwanegol ar gyfer cymhwyster ac i amcangyfrif cyfanswm y costau rhedeg; dylai hyn gynnwys edrych ar yr eitemau data SAP gostyngedig a gesglir, y safonau gwresogi a gymerir yn ganiataol, y fethodoleg ar gyfer ymdrin ag eiddo lle nad oes y mwyafswm o bobl posib yn byw yno, hyfforddiant arolygwyr a fframwaith sicrhau ansawdd.

Bod gwaith ychwanegol yn cael ei wneud er mwyn:

- Asesu dilysrwydd ymestyn yr ystod o fesurau a'r gyllideb sydd ar gael i'w cymhwyso mewn eiddo a bennir yn gymwys ar gyfer HEES.
- Adolygu'r gweithgareddau hyrwyddo ar gyfer HEES i weld os oes modd gwneud mwy o ddefnydd o rwydweithiau cymunedol, Meddygon Teulu, Nyrsys Cymunedol a sefydliadau fel Age Concern, er mwyn dod o hyd i gartrefi gyda symptomau o dlodi tanwydd. Edrych ar y posibilrwydd o gael system cam cyflym i drin y cartrefi hyn.
- Ystyried yr opsiwn o gael cyllideb HEES ddisgresiynol ar gyfer achosion lle ceir tystiolaeth glir bod cartref yn profi tldodi tanwydd ond nad yw'n gymwys ar gyfer HEES o dan y meini prawf cymhwyster presennol. Byddai'n rhaid i hyn ystyried pa ffurf y gallai'r dystiolaeth hon gymryd e.e. rhagnodyn meddyg.
- Asesu dilysrwydd defnyddio asesiad tldodi tanwydd yn hytrach nag asesiad SAP, wrth (a) gosod targedau ar gyfer rheolwyr y cynllun a (b) fel maen prawf cymhwyster yn lle'r SAP.
- Asesu dilysrwydd newid y maen prawf cymhwyster i'w seilio ar asesu lefel y tldodi tanwydd yn unig. Byddai hyn yn cynnwys (a) datblygu a phrofi gweithdrefn er mwyn cael gwared ar gartrefi nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd drwy alwad ffôn neu ffurflen gais (b) gweithio i bennu'r ffordd orau i gynnal yr asesiad tldodi tanwydd ar y safle a'r gweithdrefnau dilysu incwm (c) asesu pa weithdrefnau cwyno ac apelio fyddai eu hangen (d) gweithio i sefydlu effaith y fath ymagwedd ar gostau gweinyddu.

6. Cyfeiriadau

- Anastasi, A. (1988) *Psychological testing*. Macmillan, New York, NY.
- Anderson, B.R., Chapman, P.F., Cutland, N.G., Dickson, C.M. a Shorrocks, L.D. (1996) BREDEM-12 Model Description.. *Building Research Establishment Report. BR 315*.
- Australian Bureau of Statistics (1995) *A Provisional Framework for Household Income, Consumption, Saving and Wealth*. Australian Government Publishing Service, Canberra.
- Boardman, B. a Fawcett, T. (2002) *Competition for the poor*. Environmental Change Institute, Prifysgol Rhydychen.
- Building Research Establishment (1998) *The Government's Standard Assessment Procedure for Energy Rating of Dwellings*. Rhifyn 1998. BRECSU, BRE.
- Canberra Group (2001) *Expert Group on Household Income Statistics: Final Report and Recommendations*. Ottawa
- Carmines, E. G. & Zeller, R.A. (1991). *Reliability and validity assessment*. Newbury Park: Sage Publications.
- Adran Ynni (1978) *Family Expenditure Survey: Expenditure on Fuels, 1976*. Adran Ynni, Llundain.
- Adran yr Amgylchedd (1996) *English House Conditions Survey 1991: Energy Report*, Y Llyfrfa, Llundain.
- Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (2000) *English House Conditions Survey 1996: Energy Report*, DETR, Llundain.
- (crynodedd ar gael ar <http://www.housing.odpm.gov.uk/hrs/hrs120.htm>)
- DEFRA a DTI (2001) *Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU*, DTI, Llundain. (cyhoeddwyd gyda DSD, Senedd yr Alban, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) (http://www.dti.gov.uk/energy/consumers/fuel_poverty/strategy.shtml)
- Deville, J C, Sarndal, C E, Sautory, O. (1993) *Generalised Raking Procedures in Survey Sampling*. Journal of the American Statistical Association. Vol 88, No 423, 1013-1020
- DTI & DEFRA (2002a) *Fuel Poverty in England in 1998*, Llundain (cyhoeddwyd gyntaf yn 2001 a'i ddiweddarau yn 2002) (http://www.dti.gov.uk/energy/consumers/fuel_poverty/1998estimates_england.pdf)
- DTI & DEFRA (2002b) *Fuel poverty in England in 1999 and 2000*, Llundain. (http://www.dti.gov.uk/energy/consumers/fuel_poverty/9900estimates_england.pdf)
- Adran Gwaith a Phensiynau (2003) *Households Below Average Income 1994/95 to 2001/02*. Llundain, GSS.
- Elliot, D. (1991) *Weighting for Nonresponse – a Survey Researcher's Guide*. Llundain, OPCS.
- Elliot, D. (1999) Report of the Task Force on Weighting and Estimation. GSS *Methodology Series No 16*. Llundain, GSS.

- Fink, A. (gol.) (1995). *How to measure survey reliability and validity*. Sage, Thousand Oaks, CA.
- Frosztega, M. (2000) *Comparisons of income data between the Family Expenditure Survey and the Family Resources Survey*. Government Statistical Service Methodology Series No 18, Llundain, GSS.
- Kelly D. (1990) Total household income as measured by General Household Survey and National Travel Survey. *Survey Methodology Bulletin* 27, 14-18.
- Knight, I. (1980) The Feasibility of Conducting a National Wealth Survey in Great Britain. *New Methodology Series NM6*, OPCS, Llundain.
- ILO (1971) *Scope, Methods and Users of Family Expenditure Surveys, Report III: Twelfth International Conference of Labour Statisticians*, Geneva.
- Martin, J. (1990) Asking About Money: ESRC Survey Methods Seminar Series. *Joint Centre for Survey Methods Newsletter*, 10, 2, 2.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Mawrth 2003). Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru
- National Auditing Office (June 2003). Warm Front: Helping to Combat Fuel poverty.
- ONS (1997) *Harmonised Survey Outputs - Government Statistical Service User Consultation 1997*. Llundain, ONS.
- Parker, S. (1980) Comparison of Spouses' Answers to Identical Questions. *Survey Methodology Bulletin* 10, 32-33.
- Public Accounts Committee Report 5 (February 2004). Warm Front: Helping to Combat Fuel poverty.
- Ritchie, J. (1990) Problems in asking about money: a case study. *Joint Centre for Survey Methods Newsletter*, 10, 7-9.
- Spearman, C. (1904) General Intelligence Objectively Determined and Measured. *American Journal of Psychology* 15: 201-293.
- Spector, P.E. (1994) Summated Rating Scale Construction: An Introduction. Yn Lewis-Beck, M.S. (Gol) *Basic Measurement*, Singapore, Sage Publications.
- Stanley, J.C. (1971) 'Reliability', yn Thorndike, R.L. (gol.) *Educational Measurement* (American Council on Education, Washington DC).
- Sykes, W. (1998) *Harmonised Questions for Government Social Surveys: Qualitative Evaluation of Questions Relating to Educational Attainment and Net Household Income*. Adroddiad heb ei gyhoeddi i ONS.
- Sykes, W. a Manners, T. (1998) A Qualitative Evaluation of Questions Relating to Educational Attainment and Household Income. *Survey Methodology Bulletin* 42, 10-19.
- Townsend, P. (1979) *Poverty in the United Kingdom*, Llundain, Allen Lane a Penguin, a Berkeley, University of California Press.
- Townsend, P. (1993) *The International Analysis of Poverty*, Milton Keynes, Harvester Wheatsheaf.

- United Nations (1977) *Provisional Guidelines on Statistics of the Distribution of Income, Consumption and Accumulation of Households, Studies in Methods*, Series M, No. 61. New York.
- United Nations (1989) *National Household Survey Capability Program: Household Income and Expenditure Surveys: A technical study*, New York.
- United Nations (1992) *Revised System of National Accounts (Provisional)* Awst 1992 (i'w gyflwyno i a'i fabwysiadu yn 27ain sesiwn y comisiwn Ystadegol, Chwefror-Mawrth 1993).
- Wilkinson, P., Landon, M., Armstrong, B., Stevenson, S., Pattenden, S., Fletcher, T. a McKee, M. (2001) *Cold comfort: The social and environmental determinants of excess winter death in England, 1986-96*. Policy Press, Bryste. Foster, K. a Lound, C. (1993) A Comparison of Questions for Classifying Income. *Survey Methodology Bulletin* 32, 1-7.

Atodiad 1 – Materion yn ymwneud â Thlodi Tanwydd ac Incwm

Y Diffiniad o Dlodi Tanwydd

Ceir hanes hir o bryder ynghylch tlodi tanwydd yn y DU ac mae ymgeisiadau i'w astudio yn wyddonol gan ddefnyddio methodoleg gwyddor gymdeithasol fodern yn dyddio yn ôl i ganol y 1970au (er enghraifft, Adran Ynni, 1978). Ystyrir tlodi tanwydd yn un o achosion gormodedd o farwolaethau gaeafol o 40,000 y flwyddyn ym Mhrydain (gweler Wilkinson *et al*, 2001 am drafodaeth).

Cartref sy'n dioddef o dlodi tanwydd yw un na all fforddio cadw'n ddigonol gynnes ar gost resymol. Ar ddibenion *Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU*, a lansiwyd gan y llywodraeth ym mis Tachwedd 2001, gweithredwyd cartref sy'n dioddef o dlodi tanwydd fel un y mae angen iddo wario mwy na 10% o'i incwm ar ei holl ddefnydd o danwydd, i wresogi'r cartref i safon foddhaol ac ar gyfer goleuo, coginio, a rhedeg offer domestig (DEFRA & DTI, 2001).

Diffinnir incwm i gynnwys Budd-dâl Tai neu Cymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais (ISMI) a diffinnir y defnydd o danwydd fel yr holl danwydd a ddefnyddir ar gyfer dibenion gwresogi a dibenion nad ydynt yn ymwneud â gwresogi. Mae'r diffiniad o 'safon wresogi foddhaol' yn amrywio yn dibynnu ar y math o gartref (DETR, 2000):

- Ar gyfer cartrefi lle mae pobl yn gweithio neu mewn addysg llawn amser ystyrir ei fod yn 21°C yn y lolfa a 18°C yn yr ystafelloedd eraill y preswylir ynddynt ar gyfer y tŷ cyfan am 9 awr y dydd (bore & nos) – gelwir hyn yn y drefn wresogi *Safonol*.
- Ar gyfer cartrefi lle mae pobl yn debygol o fod gartref drwy'r dydd ystyrir ei fod yn 21°C yn y lolfa a 18°C yn yr ystafelloedd eraill y preswylir ynddynt ar gyfer y tŷ cyfan am 16 awr y dydd (drwy'r dydd) – gelwir hyn yn y drefn wresogi *Lawn*.
- Ar gyfer tai lle mae tan-feddiant¹ ystyrir ei fod yn 21°C yn y lolfa a 18°C yn yr ystafelloedd eraill y preswylir ynddynt ar gyfer hanner y tŷ am 16 awr y dydd (bob dydd) – gelwir hyn y drefn wresogi *Rannol*.

Cyfrifir cyfanswm y costau rhedeg gan ddefnyddio algorithmau BREDEM-12 (Building Research Establishment Domestic Energy Model) (Anderson *et al*, 1996). Mae'r cyfrifiad SAP yn defnyddio BREDEM 9.

Mae gan y trothwy incwm tlodi tanwydd 10% hanes hir. Dangosodd Arolwg Gwariant Teuluoedd 1988 (FES) bod cartrefi yn y tri degymol incwm isaf yn gwario, ar gyfartaledd, 10% o'u hincwm (heb gynnwys Budd-dâl Tai na ISMI fel rhan o'u hincwm) ar danwydd ar gyfer pob defnydd yn y cartref (DEFRA & DTI, 2001). Cymeryd y gellid ystyried bod hyn yn cynrychioli'r mwyafswm y gellid disgwyl yn rhesymol i gartrefi ar incwm isel wario ar danwydd.

¹ Diffinnir tan-feddiant yn nhermau safon 1968 Parker Morris a osododd reoliadau adeiladu ar leiafswm yr arwynebedd llawr ar gyfer cartref yn dibynnu ar nifer y deiliaid (DTI & DEFRA, 2002a,b).

Diffiniad o Incwm

Mae incwm yn gysyniad allweddol ym mron pob diffiniad o, ac astudiaeth o dlodi - yn cynnwys pob diffiniad o dlodi tanwydd. Defnyddir y term incwm weithiau yn llac i gyfeirio at y brif gydran yn unig o incwm ariannol ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi - *hy* cyflogau neu incwm o fusnes. Mae eraill yn defnyddio'r term yn fwy eang i gynnwys popeth a dderbynnir yn cynnwys symiau mawr unigol a dderbynnir a symiau a dderbynnir sy'n dod o gyfalaf y cartref. Mae llawer o'r ddadl wedi canolbwyntio ar p'un ai:

- y dylai incwm gynnwys symiau a dderbynnir sy'n digwydd yn gyson (hynny yw, eithrio symiau mawr ac annisgwyl a dderbynnir, sy'n debygol o fod yn ddigwyddiadau unigol);
- y dylai incwm gynnwys y cydrannau hynny yn unig sy'n cyfrannu at les economaidd presennol, neu ymestyn hefyd i'r rheiny sy'n cyfrannu at les yn y dyfodol;
- y dylai mesur incwm ganiatáu ar gyfer cynnal gwerth y gwerth net. (Canberra Group, 2001)

Diffiniadau incwm a ddefnyddir mewn astudiaethau tlodi tanwydd yng Nghymru

Mae maint ac ehangder tlodi tanwydd yn ddibynnol ar y diffiniadau a ddefnyddir o incwm a threfn wresogi. Mae diffiniad cytûn o dlodi tanwydd yn hanfodol er mwyn gallu amcangyfrif maint y broblem, ac er mwyn monitro'r cynnydd wrth fynd i'r afael â hi. Ystyriodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r *Grŵp Gweinidogol ar Dlodi Tanwydd* y diffiniad o dlodi tanwydd yng Nghymru a Lloegr, gan ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar gyfer HEES/WF newydd. Fel rhan o'r ymgynghoriad gofynnwyd y cwestiwn canlynol:

Wrth gyfrifo incwm y cartref, a ddylai costau tai a delir gyda Budd-dâl Tai (neu ISMI), ond ni thelir gan y cartref yn uniongyrchol, gael eu heithrio rhag incwm? Neu a fyddai'n well cynnwys costau tai a delir gyda Budd-dâl Tai neu ISMI fel rhan o incwm pan yn cyfrifo p'un a yw cartref yn dioddef o dlodi tanwydd?

Roedd ymatebion yr ymgynghoriad ar y mater hwn yn gymysg gyda 40% yn atal eu pleidlais; 34% yn teimlo y dylid cynnwys costau tai a delir gyda Budd-dâl Tai (neu ISMI) pan yn cyfrifo incwm y cartref; roedd 20% yn teimlo i'r gwrthwyneb; ac awgrymodd 6% bod y naill ymagwedd neu'r llall yn dderbyniol ond y dylai'r ffigur canran a ddefnyddir i bennu tlodi tanwydd adlewyrchu'r ffigur diweddaraf o'r Arolwg Gwariant Teuluoedd.

Cytunwyd bellach i ddefnyddio dau ddiffiniad o dlodi tanwydd yng Nghymru a Lloegr (DEFRA & DTI, 2001):

i) Diffiniad i ffocysu arno ar gyfer gosod targedau

Mae cartref mewn tlodi tanwydd os, er mwyn cynnal trefn wresogi foddhaol, byddai angen iddo wario mwy na 10% o'i incwm (yn cynnwys Budd-dâl Tai neu

Gymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais (ISMI) ar holl danwydd y cartref o dan amodau deiliadaeth safonol.

ii) Diffiniad ychwanegol

Mae cartref mewn tlodi tanwydd os, er mwyn cynnal trefn wresogi foddhaol, byddai angen iddo wario mwy na 10% o'i incwm (heb fod yn cynnwys Budd-dâl Tai neu Gymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais (ISMI) ar holl ddefnydd tanwydd y cartref.

Cyhoeddir dadansoddiad 'swyddogol' llywodraeth y DU o gartrefi incwm isel yn flynyddol yn yr ystadegau Cartrefi O Dan Incwm Cyfartalog (HBAI). Mae'r rhain yn darparu amcangyfrifon o batrymau o incwm dros ben personol ym Mhrydain Fawr, ac o newidiadau mewn incwm dros amser yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ystadegau HBAI yn canolbwyntio ar ran isaf y dyraniad incwm, ond mae'n darparu cymariaethau gyda'r rhan uchaf lle y bo'n briodol. Mae incwm yn HBAI yn cyfeirio at incwm dros ben y cartref: hynny yw incwm (o enillion, hunan gyflogaeth, budd-daliadau, pensiynau galwedigaethol, buddsoddiadau a ffynonellau eraill) ar ôl tynnu treth incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, trethi llywodraeth leol a didyniadau penodol eraill. Caiff incwm pob person ei agregu ar draws y cartref a'i addasu i adlewyrchu cynnwys y cartref. Adwaenir y broses hon fel cyfwerthedd ac mae'n adlewyrchu anghenion perthnasol cartrefi o faint a chynnwys amrywiol (Frosztega, 2000). Mae HBAI yn cyflwyno dadansoddiadau incwm ar ddwy sail: Cyn Costau Tai (BHC) a Wedi Costau Tai WCT).

Mae *Incwm Cyn Costau Tai* (BHC) yn cynnwys y prif gydrannau canlynol:

- enillion net arferol o gyflogaeth;
- elw neu golled o hunangyflogaeth (ymdrinnir â cholledion fel incwm negatif);
- pob budd-dâl Nawdd Cymdeithasol (yn cynnwys Budd-dâl Tai, grantiau Cronfa Gymdeithasol, mamolaeth, angladdau a gofal cymunedol ond heb gynnwys benthyciadau Cronfa Gymdeithasol) a Chredydau Treth;
- incwm o bensiynau galwedigaethol a phreifat;
- incwm o fuddsoddiadau;
- taliadau cynhaliaeth, os yw person yn eu derbyn yn uniongyrchol;
- incwm o grantiau addysgol ac ysgoloriaethau (yn cynnwys, i fyfyrwyr, benthyciadau ychwanegol a chyfraniadau rhieni);
- y gwerth mewn arian parod o fathau penodol o incwm mewn da (prydau ysgol am ddim, llaeth lles am ddim, llaeth ysgol am ddim a thrwydded deledu am ddim i'r rheiny 75 oed a hŷn).

Mae'r incwm yn net o'r eitemau canlynol:

- taliadau treth incwm;
- cyfraniadau Yswiriant Gwladol;
- cyfraddau domestig / treth gyngor;
- cyfraniadau i gynlluniau pensiwn galwedigaethol (yn cynnwys pob cyfraniad ychwanegol gwirfoddol (AVCs) i gynlluniau pensiwn galwedigaethol, ac unrhyw gyfraniadau i bensiynau personol);
- pob taliad cynhaliaeth a chynnal plant a dynnir o incwm y person sy'n gwneud y taliad;
- cyfraniadau rhieni i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref.

Cyfrifir ***Incwm Wedi Costau Tai (AHC)*** drwy ddidynnu mesur o *gostau tai* o'r mesur incwm uchod (DWP, 2003).

Mae ***costau tai*** yn cynnwys y canlynol:

- rhent (gros budd-dâl tai);
- trethi dŵr, taliadau dŵr cymunedol, a thaliadau dŵr y cyngor;
- taliadau llog morgais (net o ad-daliad treth);
- premiymau yswiriant adeiladau (i berchnogion ddeiliaid);
- rhent tir a thaliadau gwasanaeth.

Mae'r mesur 'Gosod Targedau' tloidi tanwydd, a ddefnyddir yn Lloegr a Chymru, yn fras yn unol â'r diffiniad Cyn Costau Tai a ddefnyddir yn yr ystadegau Cartrefi O Dan Incwm Cyfartalog. Mae'r Diffiniad Ychwanegol a ddefnyddir (h.y. y diffiniad wedi costau tai) fodd bynnag yn dra gwahanol i'r diffiniad o incwm Wedi Costau Tai a ddefnyddir yn HBAI. Mae'r diffiniad HBAI yn net o'r HOLL gostau tai, lle mae'r diffiniad tloidi tanwydd yn eithrio'r costau hynny a delir gan Fudd-dâl Tai neu ISMI yn unig. Nid yw'r ymagwedd hon yn gyson â'r mesurau incwm a ddefnyddir gan naill ai'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) neu'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gyfer dadansoddiad ehangach o incwm isel.

Y gwahaniaethau hanfodol rhwng yr ymagwedd HBAI a'r hynny a fabwysiedir yn niffiniad Lloegr o incwm yw:

1. Mae'r elfennau sy'n cynrychioli incwm yn HBAI wedi'u diffinio a'u cofnodi'n glir ac mae gweithdrefnau a brofwyd ar gyfer casglu'r wybodaeth hon drwy holiaduron
2. Seilir HBAI ar Incwm y Cartref yn hytrach nac ar incwm Pennaeth y Cartref a'u Partner (mae partner yn derm nad yw wedi'i ddiffinio'n glir)
3. Mae incwm yn net o'r eitemau canlynol yn ogystal ag o Dreth Incwm ac Yswiriant Gwladol:
 - Treth Gyngor
 - Cyfraniadau i gynlluniau pensiwn
 - Taliadau cynhaliaeth & chynnal plant
 - Cyfraniad rhieni i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref

Mae'r ymagwedd HBAI hefyd yn caniatáu amcangyfrif incwm wedi costau tai, a ddiffinnir fel:

- Rhent (gros o Fudd-dâl Tai)
- Taliadau Llog Morgais (net o ad-daliad treth)
- Costau dŵr
- Premiymau Yswiriant Adeiladau (i berchnogion ddeiliaid)

Yr ail o'r diffiniadau hyn yw'r un a ddefnyddir yn niffiniad swyddogol y DU a'r UE o dloidi h.y. cartrefi o dan 60% o incwm canolrifol wedi costau tai.

Mesur Incwm Cartrefi

Ers amser hir ystyrir bod cael gwybodaeth gywir a chyflawn ar incwm o gartrefi yn un o'r problemau anos eu datrys i ymchwilwyr arolygon cymdeithasol ym Mhrydain. Mae ymchwilwyr arolygon yn aml yn honni bod:

"people are more willing to talk about their sexual behaviour than about their financial affairs and even if they are willing to talk they may not have the necessary knowledge to answer the questions" (Martin, 1990)

Gallai'r cysyniad hwn yn rhannol fod yn wirionedd hanesyddol yn deillio o wahaniaethau seiliedig ar ddsbarth o fewn cymdeithas Prydain yn ymwneud â thrafod materion ariannol. Yn y gorffennol, ystyriwyd materion ariannol yn bwnc trafod 'addas' rhwng darpar ŵr a'r ddarpar dad-yng-nghyfraith yn unig mewn teuluoedd 'dosbarth uchaf' a 'chanol uchel'. Fodd bynnag, roedd cartrefi dosbarth 'gweithiol' yn aml yn fwy parod i siarad ac yn wir roedd y Wladwriaeth Les yn mynnu y datgelir materion ariannol er mwyn hawlio budd-daliadau oedd yn seiliedig ar brawf modd.

Mae crynodeb o ymchwil yn dangos bod cwestiynau ar fandiau incwm yn derbyn cyfradd ymateb lawer uwch ar gyfer pob math o gartref na chwestiynau incwm manwl (cyfeiriadau). Dangoswyd hefyd bod bandiau yn llwyddiannus wrth ddarparu mesurau o incwm unigol ac incwm cartrefi sy'n cymharu'n dda gyda mesurau yn seiliedig ar gwestiynau hirach a fwy manwl.

Mesurau incwm a gyfrifir o'r arolwg HEES

Cyfrifwyd dau amcangyfrif incwm o'r ymatebion i'r arolwg HEES i geisio goresgyn rhai o'r problemau a drafodwyd eisoes;

1) **Incwm Llawn** – cyfanswm incwm wythnosol net y cartref o bob ffynhonnell ar ôl didynnu Treth Incwm, Yswiriant Gwladol ac unrhyw gyfraniad tuag at bensiwn. Mae'r diffiniad hwn yn fras yn unol â'r diffiniad 'gosod targedau' o incwm a drafodwyd uchod.

2) **Incwm Sylfaenol** - cyfanswm incwm wythnosol net y cartref o bob ffynhonnell ar ôl didynnu Treth Incwm, Yswiriant Gwladol, unrhyw gyfraniad tuag at bensiwn a budd-dâl tai. Mae'r diffiniad hwn yn fras yn unol â'r diffiniad 'ychwanegol' o incwm a drafodwyd uchod.

Mae hefyd yn bosib ystyried gwariant ychwanegol yn gysylltiedig ag anabledau a theuluoedd rhieni unigol, fel isod, er nad yw'r diffiniadau hynny wedi'u hystyried yn yr adroddiad hwn.

3) **Incwm Dros Ben Canolrifol (Incwm HBAI AHC)**- cyfanswm net incwm wythnosol y cartref o bob ffynhonnell ar ôl didynnu Treth Incwm, Yswiriant Gwladol, unrhyw gyfraniad tuag at bensiwn a chostau tai. Yna caiff incwm ei gyfwerthu yn ôl maint a math y cartref yn defnyddio graddfa OECD diwygiedig. Mae'r diffiniad hwn yn fras yn unol â'r diffiniad Cartrefi O Dan Incwm Cyfartalog Wedi Costau Tai o incwm a ddefnyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

4) **Incwm Dros Ben a Gyfwerthwyd (Incwm)** - cyfanswm net incwm wythnosol y cartref o bob ffynhonnell ar ôl didynnu Treth Incwm, Yswiriant Gwladol, unrhyw gyfraniad tuag at bensiwn a'r holl gostau tai. Yna caiff yr incwm ei gyfwerthu yn ôl maint a chyfansoddiad y cartref a'i statws anabledd yn defnyddio graddfa Arolwg Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol Prydain (PSE). Seilir y raddfa PSE ar ymchwil Safonau Cyllideb i gostau cymharol ar gyfer gwahanol fathau o gartrefi, a ymgwymerwyd gan dimau ymchwil ym Mhrifysgolion Llundain, Loughborough a Chaerefrog. Mae'n cynnwys addasiadau incwm i ganiatáu ar gyfer costau ychwanegol teuluoedd rhieni unigol a'r costau ychwanegol a gysylltir ag anabledd (gweler Gordon *et al* 2003 am drafodaeth).

Crynodeb a Chasgliadau

Mae diffiniad Lloegr o Dlodi Tanwydd yn ymdrin â phatrymau gwresogi mewn ffordd gymhleth, gyda'r oriau o wresogi yn amrywio yn ôl a yw'r person yn debygol o fod gartref drwy'r dydd ai peidio. Mae hefyd yn amrywio'r gyfran o'r tŷ a wresogir os yw'r eiddo mewn tan-feddiant. Penderfynwyd gweithredu'r cyfrifiadau sylfaen o'r niferoedd mewn tlodi tanwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn asesu'r graddau y mae'r hyn a gymerir yn ganiataol yn effeithio ar y niferoedd o ganlyniad yr amcangyfrifir eu bod mewn tlodi tanwydd. Defnyddiwyd tair ymagwedd fel a ganlyn:

- Cymerwyd yn ganiataol bod angen gwresogi ar yr holl ddeiliaid am 16 awr y dydd – y Drefn Gwresogi Estynedig
- Cymerwyd yn ganiataol bod angen gwresogi ar yr holl ddeiliaid am 9 awr y dydd – y Drefn Gwresogi Safonol
- Amrywiwyd y patrwm gwresogi yn ôl categori'r deiliad mewn modd tebyg ag y gwnaed wrth gynhyrchu'r ystadegau tlodi tanwydd ar gyfer Lloegr a Chymru. Cymerwyd bod cartrefi lle roedd rhywun gartref drwy'r dydd â'r patrwm Gwresogi Estynedig, bod gan y rheiny oedd yn gweithio y patrwm Gwresogi Safonol a'r rheiny eu dosbarthwyd yn y dosbarth "tan-feddiant" y Drefn Gwresogi Rhannol – y Drefn Gwresogi Cymysg.

Mae'r diffiniad o'r term "incwm" yn Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU yn amwys, nid yw wedi'i gofnodi'n drylwyr ac felly roedd yn anodd ei ddyblygu. Mae'r ymagwedd i amcangyfrif incwm yn yr astudiaeth hon yn adeiladu ar yr ymagwedd a ddefnyddir gan y llywodraeth i amcangyfrif tlodi (yn hytrach nac amcangyfrif tlodi tanwydd) ac a ddefnyddir ar gyfer ystadegau HBAI. Hepgorwyd y ffactorau canlynol o'r ymagwedd HBAI er mwyn rhoi sail debyg i'r ymagwedd yn Lloegr – treth gyngor, cyfraniadau pensiwn, taliadau cynhaliadaeth a chyfraniadau rhieni i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref. Mae'r amcangyfrifon tlodi tanwydd a gynhyrchwyd felly yn seiliedig ar:

- Brasamcanu i Ddiffiniad Lloegr o Incwm yn cynnwys Costau Tai (a elwir yn Incwm Llawn)
- Brasamcanu i Ddiffiniad Lloegr o Incwm ac eithrio Budd-dâl Tai & ISMI (a elwir yn Incwm Sylfaenol)

Atodiad 2 – Yr holiadur

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

Mae'r arolwg hwn ar gyfer pobl a dderbyniodd grant yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella gwresogi ac inswleiddio yn eu cartrefi. Mae angen y wybodaeth hon i atal pobl yng Nghymru rhag dioddef tai oer a llaith.

Amgaeir amlen RHADBOST er mwyn i chi ddychwelyd eich ffurflen wedi'i chwblhau i'r tîm arolwg annibynnol. Mae'r arolwg hwn yn gwbl wirfoddol. Meddyliwch yn ofalus am eich atebion.

Os atebwch erbyn 21 Gorffennaf 2004 rhoddir eich enw mewn het i ennill gwobr!

<div style="border: 1px solid black; height: 200px; width: 100%;"></div> <p>Os yw manylion eich enw a'ch cyfeiriad yn anghywir, diwygiwch y manylion uchod.</p> <p>Enw <input type="text"/></p> <p>Rhif Ffôn <input type="text"/></p>	<p>Mae ein cofnodion yn dangos i chi dderbyn grant Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ydy hyn yn gywir?</p> <p><input type="checkbox"/> Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy</p>
	<h3>Adran 1 : Cartref eich Teulu</h3>
	<p>1 Faint o bobl sy'n byw yn eich cartref? Cofiwch gynnwys eich hun a babanod <input type="text"/> <input type="text"/></p>
	<p>2 Sawl un sy'n oedolyn 18 oed a throsodd? <input type="text"/> <input type="text"/></p>
	<p>3 Sawl un sy'n blentyn iau na 18 oed? <input type="text"/> <input type="text"/></p>
	<p>4 Ydy nifer y bobl sy'n byw yn eich cartref wedi newid ers i chi gael y grant?</p> <p><input type="checkbox"/> Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy</p>

Tudalen 1

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

5 Sawl ystafell wely sydd yn eich tŷ?

6 Pa mor fodlon ydych â'ch cartref?

Bodlon iawn
 Eithaf bodlon
 Ddim yn fodlon nad yn anfodlon
 Ychydig yn anfodlon
 Anfodlon iawn

7 Sut byddech yn disgrifio cyflwr eich cartref...

Da
 Gweddol
 Gwael
 Ddim yn gwybod

8 A oes gennych y problemau canlynol yn eich cartref?
 (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Diffyg lle
 Rhy dywyll/dim digon o olau
 Diffyg cyfleusterau gwresogi digonol
 Problemau gyda drafftiau
 To, gwteri neu ffenestri yn gollwng
 Waliau, lloriau neu sylfeini llaith
 Pydredd yn fframiau'r ffenestri neu'r lloriau
 Llwydni
 Dim lle i eistedd y tu allan, e.e. teras neu ardd
 Arall
 Dim o'r problemau hyn
 (Gweler tudalen 8 ar gyfer y weithdrefn gwyno)

9 A yw eich iechyd neu iechyd unrhyw un yn eich cartref wedi ei waethygu gan eich sefyllfa dai?

Ydy Nac ydy

10 Beth yw taliad MISOL eich cartref tuag at unrhyw forgais neu fenthyciad?

Dim
 Llai na £50
 £50 - £99
 £100 - £149
 £150 - £199
 £200 - £249
 £250 - £299
 £300 - £399
 £400 - £499
 £500 - £749
 £750 - £999
 £1000 - £1249
 £1250 - £1499
 £1500 neu fwy

11 Beth yw cyfanswm rhent **WYTHNOSOL** eich cartref?
Cynhwyswch unrhyw Fudd-dâl Tai neu Ad-daliad Rhent yr ydych yn ei dderbyn.
Hepgorwch unrhyw daliadau i dalu ôl-ddyledion.

Dim
 Llai na £50
 £50 - £74
 £75 - £99
 £100 - £149
 £150 - £199
 £200 - £299
 £300 neu fwy

12 A ydych yn derbyn unrhyw Fudd-dâl Tai neu Ad-daliad Rhent?

Ydw. Nodwch faint yr ydych yn ei dderbyn bob wythnos. £

Nac ydw

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

Adran 2 : Problemau Gwresogi a Chost Gwresogi

1a Yn y gaeaf, a ydych yn gallu cadw eich cartref yn ddigon cynnes?
 Ydw (Ewch yn syth Nac ydw i gwestiwn 2)

1b Pa rannau o'ch cartref nad ydynt yn ddigon cynnes?
 (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
 Ystafelloedd gwely'r plant
 Ystafelloedd gwely'r oedolion
 Ystafelloedd byw
 Ceginau
 Ystafelloedd ymolchi, toiledau, ystafelloedd cawod
 Cynteddau, landins
 Ystafelloedd eraill
 Pob ystafell

1c Pam ei bod yn anodd cadw'r ystafell hon/ystafelloedd hyn yn gynnes?
 (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
 Gwresogi yn anhigonol/wedi torri
 Dim digon o reiddiaduron
 Inswleiddio gwael/drafftiau
 Rhy ddrud
 Rhyw reswm arall

2 A oes gan eich cartref wres canolog?
 (Cynhwyswch wresogyddion storio)
 Oes
 Oes, ond nid yw'n gweithio
 Nac oes. Byddwn i/byddem ni yn hoffi ei gael ond ni allwn ei ffordio ar hyn o bryd.
 Nac oes. Nid ydw i/ydym ni ei angen/ei eisiau ar hyn o bryd.

3 A fydddech yn dweud ers cael y grant CEYC bod eich cartref...
 Llawer yn gynhesach
 Ychydig yn gynhesach
 Tua'r un peth
 Yn oerach

4 A fydddech yn dweud ers cael y grant CEYC bod eich biliau tanwydd...
 Llawer yn is
 Ychydig yn is
 Tua'r un peth
 Ychydig yn fwy
 Llawer yn fwy

5 Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a gawsoch eich datgysylltu rhag gwasanaethau trydan, nwy, dŵr neu ffôn oherwydd nad oeddech yn gallu eu ffordio?
 (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
 Dim o'r rhain
 Trydan
 Nwy
 Ffôn
 Dwr

6 Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a ydych wedi defnyddio llai o wasanaethau trydan, nwy, dŵr neu ffôn oherwydd nad oeddech yn gallu eu ffordio?
 ((Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
 Dim o'r rhain
 Trydan
 Nwy
 Ffôn
 Dwr

Mae'r ddau gwestiwn nesaf yn gofyn am gost byw yng Nghymru heddiw.

7 Sawl punt yr wythnos, ar ôl tynnu treth, yr ydych yn credu sydd eu hangen i gadw cartref fel yr un yr ydych chi'n byw ynddo allan o dlodi? £

Tudalen 3

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

- 8** Pa mor bell uwchben neu islaw y lefel honno y byddech yn tybio y mae eich cartref chi?
- Ymhell uwchben y lefel honno o incwm
- Ychydig uwchben y lefel honno o incwm
- Tua'r un peth
- Ychydig islaw y lefel honno o incwm
- Ymhell islaw y lefel honno o incwm
- Ddim yn gwybod

Adran 3 : Amdanoch chi eich Hun

- 1** Rhyw. Nodwch a ydych yn:
- Wrywaidd Benywaidd

- 2** Beth yw eich dyddiad geni?
- / /

- 3** Beth yw eich statws priodasol?
- Priod
- Byw fel petawn yn briod
- Gweddw
- Wedi ysgaru
- Wedi gwahanu
- Sengl
- Byw gyda phartner o'r un rhyw

- 4** Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio eich statws gwaith orau?
- Gweithio'n llawn-amser
- Gweithio'n rhan-amser
- Aros i ymgymryd â swydd
- Ceisio gwaith
- Ddim yn gallu gweithio oherwydd salwch/anabledd hir dymor
- Wedi ymddeol o waith cyflogedig
- Edrych ar ôl y cartref/teulu
- Myfyriwr/derbyn hyfforddiant
- Arall, nodwch:
-

Adran 4:Ynglŷn â'ch Incwm

- 1** Cwestiwn Budd-daliadau: Sawl person yn eich cartref sydd ar hyn o bryd yn derbyn... (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

	Dim	1	2	3 neu fwy	Ddim am ateb
Credyd Teulu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymhorthdal Incwm	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Lwfans Ceisio					
Gwaith	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Budd-dâl Tai	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Budd-dâl Treth					
Gyngor	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Budd-dâl Gweddwon	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Credydau Treth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Tâl/Budd-dâl Salwch	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Budd-dâl					
Analluogrwydd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Lwfans Gweini	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Lwfans Byw i'r Anabl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Budd-dâl Anabl arall	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Pensiwn Ymddeol y					
Wladwriaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Pensiwn					
Galwedigaethol/					
Preifat	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

2 Cwestiwn Ffynonellau Incwm: Pa rai o'r ffynonellau incwm canlynol yr ydych a) chi a b) eich cartref yn eu derbyn (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

	Chi	Erail yn Eich Cartref
Enillion o gyflogaeth neu hunangyflogaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Budd-dâl Plant	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Taliadau Cynhaliaeth/Cefnogi Plant	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Llog o gynilion, dididendau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Benthyciad/Grant Myfyrwyr	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Benthyciad Cronfa Gymdeithasol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Math arall o lwfans rheolaidd o'r tu allan i'r cartref	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Budd-dâl y Wladwriaeth a restrwyd yn y cwestiwn blaenorol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Pensiwn a restrwyd yn y cwestiwn blaenorol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Budd-daliadau/pensiynau eraill	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ffynonellau incwm eraill e.e. rhent	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

3 Cwestiwn Incwm Unigol: Pa fand sy'n cynrychioli cyfanswm eich incwm WYTHNOSOL eich hun o'r holl ffynonellau hyn ar ôl didynnu Treth Incwm, Yswiriant Gwladol ac unrhyw gyfraniad tuag at bensiwn

NODWCH RIF Y BAND AR

GYFER EICH INCWM CHI

BAND INCWM WYTHNOSOL

- | | |
|----|-------------------|
| 1 | Llai na £10 |
| 2 | £10 llai na £20 |
| 3 | £20 llai na £30 |
| 4 | £30 llai na £40 |
| 5 | £40 llai na £50 |
| 6 | £50 llai na £60 |
| 7 | £60 llai na £70 |
| 8 | £70 llai na £80 |
| 9 | £80 llai na £90 |
| 10 | £90 llai na £100 |
| 11 | £100 llai na £120 |
| 12 | £120 llai na £140 |
| 13 | £140 llai na £160 |
| 14 | £160 llai na £180 |
| 15 | £180 llai na £200 |
| 16 | £200 llai na £220 |
| 17 | £220 llai na £240 |
| 18 | £240 llai na £260 |
| 19 | £260 llai na £280 |
| 20 | £280 llai na £300 |
| 21 | £300 llai na £320 |
| 22 | £320 llai na £340 |
| 23 | £340 llai na £360 |
| 24 | £360 llai na £380 |
| 25 | £380 llai na £400 |
| 26 | £400 llai na £450 |
| 27 | £450 neu fwy |

4 Cwestiwn Incwm y Cartref: Pa fand sy'n cynrychioli cyfanswm eich incwm chi a'ch priod/partner gyda'i gilydd ac unrhyw bobl yn y cartref sy'n derbyn incwm, ar ôl unrhyw ddiidyniadau?

(Dyma gyfanswm incwm eich cartref)

NODWCH RIF Y BAND AR GYFER

INCWM EICH CARTREF

Tudalen 5

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

5a Ers i chi dderbyn grant CEYC, a yw'r swm yr ydych **chi'n** ei dderbyn o ran incwm, budd-daliadau neu bensiynau wedi....

- Cynyddu
- Gostwng
- Aros yr un peth (Ewch yn syth i gwestiwn 6a)

6a Ers i chi dderbyn grant CEYC, a yw'r swm y mae **eich cartref** yn ei dderbyn o ran incwm, budd-daliadau neu bensiynau wedi....

- Cynyddu
- Gostwng
- Aros yr un peth (Ewch yn syth i adran 5)

5b Os yw eich incwm wedi cynyddu neu ostwng, faint y mae wedi newid?

- Llai na £10
- £10 llai na £20
- £20 llai na £30
- £30 llai na £40
- £40 llai na £50
- £50 llai na £60
- £60 llai na £70
- £70 llai na £80
- £80 llai na £90
- £90 llai na £100
- £100 llai na £120
- £120 llai na £140
- £140 llai na £160
- £160 llai na £180
- £180 llai na £200
- £200 llai na £220
- £220 llai na £240
- £240 llai na £260
- £260 llai na £280
- £280 llai na £300
- £300 llai na £320
- £320 llai na £340
- £340 llai na £360
- £360 llai na £380
- £380 llai na £400
- £400 llai na £450
- £450 neu fwy

6b Os yw incwm **eich cartref** wedi cynyddu neu ostwng, faint y mae wedi newid?

- Llai na £10
- £10 llai na £20
- £20 llai na £30
- £30 llai na £40
- £40 llai na £50
- £50 llai na £60
- £60 llai na £70
- £70 llai na £80
- £80 llai na £90
- £90 llai na £100
- £100 llai na £120
- £120 llai na £140
- £140 llai na £160
- £160 llai na £180
- £180 llai na £200
- £200 llai na £220
- £220 llai na £240
- £240 llai na £260
- £260 llai na £280
- £280 llai na £300
- £300 llai na £320
- £320 llai na £340
- £340 llai na £360
- £360 llai na £380
- £380 llai na £400
- £400 llai na £450
- £450 neu fwy

Tudalen 6

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

Adran 5: Ynglŷn : Â Chyflwr Eich Iechyd Chi Heddiw

1 Pa un o'ch datganiadau canlynol sy'n disgrifio cyflwr eich iechyd chi heddiw orau?
(Ticiwch un datganiad ym mhob grwp)

1) Symudedd

- Nid wyf yn cael problemau gyda cherdded o gwmpas
- Rwy'n cael rhai problemau gyda cherdded o gwmpas
- Rwy'n gaeth i'r gwely

2) Hunan-ofal

- Nid wyf yn cael problemau gyda hunan-ofal
- Rwy'n cael rhai problemau gydag ymolchi neu wisgo fy hun
- Nid wyf yn gallu ymolchi na gwisgo fy hun

3) Gweithgareddau Arferol (e.e. gwaith, astudio, gwaith ty, gweithgareddau teuluol neu hamdden)

- Nid wyf yn cael problemau gyda chyflawni fy ngweithgareddau arferol
- Rwy'n cael rhai problemau gydag ymolchi neu wisgo fy hun
- Nid wyf yn gallu cyflawni fy ngweithgareddau arferol

4) Poen/Anesmwythder

- Nid oes gennyf boen/anesmwythder
- Mae gennyf boen/anesmwythder cymedrol
- Mae gennyf boen/anesmwythder difrifol

5) Pryder/Iselder

- Nid wyf yn bryderus nac yn isel
- Rwyf yn gymedrol bryderus neu isel
- Rwyf yn eithriadol bryderus neu isel

2 Gwerthuswch gyflwr eich iechyd

I helpu pobl i ddweud pa mor dda neu ddrwg y mae cyflwr eu hiechyd, rydym wedi creu graddfa (tebyg i thermometr) lle mae'r cyflwr gorau y gallwch ei ddychmygu wedi'i farcio gyda 100 a'r cyflwr gwaethaf y gallwch ei ddychmygu wedi'i farcio gyda 0.



Hoffem i chi nodi ar y raddfa hon pa

mor dda neu ddrwg y mae eich iechyd heddiw, yn eich barn chi. Gwnewch hyn drwy dynnu llinell o'r bocs isod i ba bwynt bynnag ar y raddfa sy'n nodi pa mor dda neu ddrwg y mae cyflwr eich iechyd.

3 A fyddech yn dweud y bu eich iechyd chi yn y 12 mis diwethaf yn...

- Dda Gweddol Dda Ddim yn Dda

4 A oes gennych unrhyw salwch tymor hir, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu eich gweithgareddau bob dydd neu'r gwaith y gallwch ei wneud? **Cynhwyswch** problemau sydd o ganlyniad i henaint

- Oes Nac Oes Ddim yn gwybod

5 A oes gan unrhyw un arall yn eich cartref unrhyw salwch tymor hir, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu eu gweithgareddau bob dydd neu'r gwaith y gallant ei wneud?

Cynhwyswch problemau sydd o ganlyniad i henaint


- Oes, oedolyn arall Oes, plentyn
 Nac Oes Ddim yn gwybod

Tudalen 7

Cynllun Effeithlonwydd Ynni Cartref

Fe ddylai pob cartref a dderbyniodd system gwres canolog drwy'r Cynllun Effeithlonwydd Ynni Cartref rhwng Ebrill 2003 a Mawrth 2004 fod wedi derbyn holiadur bodlonwydd cwsmeriaid, neu y byddant yn derbyn un yn fuan. Hoffem eich annog i ddefnyddio'r cyfleon hyn i gynnig adborth i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae diddordeb gennym mewn unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym am sut y gwnaeth y grant weithio i chi, er gwaethaf pa mor ddi-bwys.



Tudalen 8

Appendix 3 – Cover Letter



**National Energy
Services**



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Dear,

YOUR OPINION COUNTS

The Welsh Assembly Government is currently evaluating the problems some people have heating their homes, and the effectiveness of the heating and insulation measures offered as part of the Home Energy Efficiency Scheme. As someone who previously received a grant under the Home Energy Efficiency Scheme, you have been selected to take part in this survey. We would greatly value the views of all adults in your household on this subject. Therefore I have enclosed a questionnaire that should be completed by **each adult** in your household. The results of this survey will be used to improve the Home Energy Efficiency Scheme, so that it can be more effective in helping people heat their homes.

The Assembly Government has employed an independent research company to carry out the survey. The enclosed fair data protection statement explains how this data will be used.

Please fill in the form. This is your opportunity to shape the future and help us prevent people in Wales suffering from cold and damp homes. All you have to do is to fill in the form that comes with this letter and send it off in the FREEPOST envelope provided. If your reply is received before July 21, you will be entered into a prize draw and you will have the chance of winning one of 20, £30 supermarket vouchers.

Please do not hesitate to contact me if you have any further questions about the survey.

Thank you for your help; it really can make a difference.

Yours sincerely,

Dawn Homer

The prize draw will take place on 7th July 2004. All winners will be notified, by post, during July 2004. If you would like a list of winners names please contact Dawn Homer, National Energy Services, MK5 8NA

Appendix 4 – Fair processing notice

Fair Processing Notice: What the National Assembly for Wales does with Information it holds on Households Participating in Home Energy Efficiency Scheme Follow up Survey

Subject

The National Assembly for Wales is currently evaluating the problems some people have heating their homes, and the effectiveness of the heating and insulation measures offered as part of the Home Energy Efficiency Scheme. The Assembly Government has employed an independent research company, National Energy Services to carry out the survey.

This leaflet tells you about the National Assembly for Wales processing of households' personal data.

What is personal data?

Personal data means data from which a living individual can be identified, or from those data and other information which is in, or likely to come into, the possession of the National Assembly for Wales.

Purpose for processing personal data

The Home Energy Efficiency Scheme exercises the powers delegated to the National Assembly for Wales under the Social Security Act 1990 to make grants towards the cost of carrying out work for the purpose of improving the thermal insulation of dwellings and reducing or preventing wastage of energy. The Warm Homes and Energy Conservation Act 2000 requires the National Assembly for Wales to set out a strategy to eradicate fuel poverty as far as reasonably practical in Wales.

The use made of this personal information

In order to assist in carrying out its statutory duties and regulating standards, the National Assembly for Wales uses the household information to:

- provide information to Welsh Assembly Government Ministers, which will inform decisions relating to policy changes and funding;
- update Welsh Assembly Government Ministers on households helped and measures installed under the Home Energy Efficiency Scheme;
- improve the scheme to better meet the needs of the grant recipients, and contribute to eradicating fuel poverty;
- produce Welsh Assembly Government statistics on household income and house condition in Wales to assess the impact of the scheme on fuel poverty;
- monitor the contract performances of the managing agents and installers under the scheme.

Organisations who may share personal information

Information held by the National Assembly for Wales on households, may be shared with other organisations when the law allows, for example with;

- bodies doing research for the National Assembly for Wales;
- bodies doing research for scientific and academic purposes;
- central and local government for the planning and provision of services;
- social services and other health and welfare organisations, where there is a need to share information to protect and support members of households;
- various regulatory bodies, such as ombudsmen and inspection authorities, where the law requires that information be passed on so that they can do their work.

Data recorded

